# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 3 MEHEFIN 2019 am 1.00 o'r glochy. p.** | | **MONDAY, 3 JUNE, 2019 at 1:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)

# R H A G L E N

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL</u>** (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 19 Mawrth, 2019
- 14 Mai, 2019 (ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd)
- 17 Mai, 2019 (galw i mewn)

**3** **<u>MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2018/19</u>** (Tudalennau 21 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

**4** **<u>MONITRO GWELLIANNAU YN Y GWASANAETHAU PLANT</u>** (Tudalennau 43 - 58)

- Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

- Cyflwyno adroddiad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

**5** **<u>AELODAETH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID</u>** (Tudalennau 59 - 62)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**6** **<u>BLAEN RAGLEN WAITH</u>** (Tudalennau 63 - 76)

Cyfwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2019.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)<br>Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd am y cyfarfod hwn)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Alun Roberts, Nicola Roberts.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro/Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Rheoleiddio ac Economaidd<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff Dros Dro<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad<br>Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol (GT) (ar gyfer eitem 13)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Aled Morris Jones, Bryan Owen, J. Arwel Roberts, R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd, bu'r Is-gadeirydd gadeirio'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Cytunodd y Pwyllgor y dylid penodi Is-gadeirydd a chafodd y Cynghorydd Richard Owain Jones ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Bu'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol yn eitem 7 ar yr agenda fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd. Safodd lawr fel Cadeirydd y cyfarfod ar gyfer eitem 7 er mwyn gallu cymryd rhan yn y drafodaeth fel Aelod Lleol yn unig.

Bu'r Cynghorydd Nicola Roberts ddatgan diddordeb personol yn eitem 7 ar yr agenda fel llywodraethwr ysgol ac fel rhiant i blentyn sy'n mynychu Ysgol y Graig.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2019 ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFRAETHOL CHWARTER 3 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, yn cynnwys Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 3 ar gyfer 2018/19, ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cyfleu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y'u hamlinellwyd a'u cytuno arnynt ar ddechrau'r flwyddyn ac ar ddiwedd y trydydd chwarter.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol fod y Cerdyn Sgorio yn gyffredinol yn adlewyrchu perfformiad da iawn y gwasanaethau a'r perfformiad gorau yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad ar ddiwedd Chwarter 3 ers i'r Cyngor ddechrau monitro a thracio perfformiad yn y fformat hwn. Mae'r adroddiad yn amlygu'r tri maes lle mae perfformiad yn is na'r targed, dau ohonynt yn y Gwasanaethau Oedolion – PM20a – Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ailalluogi ac sy'n derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach a PAM/025 (PM19) – Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed; mae'r trydydd maes sy'n tanberfformio (PAM018) yn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac mae'n ymwneud â chanran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ffactorau a fyddai wedi cyfrannu at y perfformiad is na'r targed yn y meysydd hynny ac yn amlinellu'r camau lliniaru a fydd yn cael eu cymryd er mwyn gwella perfformiad erbyn Chwarter 4.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at Reoli Pobl a chadarnhaodd bod lefelau absenoldeb salwch ar yr un lefel â'r ffigwr ar gyfer yr un chwarter yn 2017/18 sef 2.69 Cyfwerth ag Amser Llawn o ddyddiau wedi eu colli. Mae sicrwydd yn parhau bod Gwasanaethau yn dilyn gweithdrefnau yn unol â'r polisi rheoli absenoldebau.

Mewn perthynas â Gwasanaeth Cwsmer mae nifer defnyddwyr cofrestredig ApMôn a gwefan y Cyngor yn parhau i dyfu sy'n ganlyniad positif o ystyried yr oedi wrth gyflwyno gwefan y Cyngor o ganlyniad i faterion technegol. Unwaith y bydd y wefan yn weithredol, bydd yn arwain at gynnydd yn y defnydd o ffurflenni ar-lein a chyswllt ar-lein ynghyd â thaliadau ar-lein. Oherwydd absenoldeb salwch hirdymor swyddog o fewn y tîm sydd â chyfrifoldeb am gasglu data, nid yw'n bosib adrodd ar Gwynion Cwsmeriaid na cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y chwarter. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae graddfa'r ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlen yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i fod yn is na'r targed gyda dim ymatebion ysgrifenedig wedi eu darparu o fewn yr amserlen ar gyfer 13 o'r 27 o gwynion Cam 1 – er ar gyfer 22 o'r cwynion hynny, cynhaliwyd trafodaeth â'r achwynydd o fewn yr amserlen. Mae graddfa'r ymatebion ysgrifenedig yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi'i hamlygu gan yr UDA fel maes y mae angen ei wella. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod Atodiad B o'r adroddiad yn darparu trosolwg o berfformiad prosiectau trawsnewid gwasanaeth presennol y Cyngor hyd yma.

Yn nhrafodaeth ddilynol y Pwyllgor ar yr adroddiad, codwyd y materion canlynol –

DRAFT

- Bod yr adroddiad yn dangos bod Gwasanaethau Cyngor yn gwella ond bod rhai pocedi o dan-berfformiad. Yr her yw cynnal a chyfnerthu'r lefel hon o berfformiad yn Chwarter 4 a thu hwnt tra'n mynd i'r afael â meysydd penodol lle mae perfformiad ar ei hôl hi.
- Bod ymateb yn amserol i gwynion yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael ei amlygu yn yr adroddiad fel problem ac y bu'n ffynhonnell o danberfformiad mewn chwarteri blaenorol. Oes yna rôl ychwanegol i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant o ran cefnogi a monitro gwelliant?
- Bod y cerdyn sgorio yn dynodi tuedd at i lawr mewn perfformiad ar gyfer prosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ar amser yn rhannol oherwydd absenoldeb staff a llwyth gwaith trwm o ganlyniad i weithredu'r system gynllunio newydd. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i oresgyn yr anawsterau hyn?
- Bod gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn wedi'i weld ers 2016/17 yn y perfformiad o ran canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sy'n derbyn pecyn gofal ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach; mae perfformiad yn parhau yn is na'r targed yn Chwarter 3 2018/19. Beth sy'n cael ei wneud i wrthdroi'r dirywiad ac i wella perfformiad er mwyn cyrraedd lefel targed?
- Mae presenoldeb yn y gwaith yn y sector addysg cynradd yn faes sydd wedi'i nodi'n GOCH tra ei fod wedi'i nodi fel GWYRDD ar gyfer y sector uwchradd. Beth yw'r rheswm am y gwahaniaeth mewn perfformiad a pha gynlluniau sydd gan y Gwasanaeth Dysgu i gefnogi ysgolion i wella presenoldeb yn y gwaith?
- Bod perfformiad mewn perthynas â chanran y rhai sydd wedi gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET) yn dangos ei fod yn y chwartel isaf (COCH). Does dim gwybodaeth am berfformiad na thargedau wedi'i darparu er mwyn rhoi cyd-destun.
- A oes unrhyw risgiau i'r Cyngor o ganlyniad i'r raddfa uwch o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal?
- Oes yna unrhyw rwystrau penodol ar gyfer gwella perfformiad mewn perthynas â Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith i lefel darged RAG GWYRDD?

Darparwyd cadarnhad/esboniad i Swyddogion ac Aelodau Portffolio fel a ganlyn –

- Bod perfformiad Gwasanaethau Plant o ran cynnal sgwrs ag achwynwyr yn dda ond nid yw'r Gwasanaeth wedi bod mor effeithiol wrth ddarparu ymateb ysgrifenedig ar amser. Mae'r sefyllfa'n gwella. Yn Chwarter 1, allan o 5 achwynydd fe dderbyniodd 2 ymateb ysgrifenedig ar amser; ar gyfer Chwarter 2 fe dderbyniodd 7 allan o 14 achwynydd ymateb ysgrifenedig ar amser ac ar gyfer Chwarter 3 fe ddarparwyd ymateb ysgrifenedig ar amser i 5 allan o'r 8 achwynydd. Yn y 3 achos lle na roddwyd ymateb ysgrifenedig ar amser – roedd un o ganlyniad i'r ffaith bod y Gweithiwr Cymdeithasol ar wyliau, roedd yr ail angen ymateb gan nifer o wahanol bobl a gofynnwyd i'r achwynydd gytuno i estyniad o ran yr amserlen ac roedd yr oedi gyda'r trydydd i'w briodoli i lwyth gwaith y Rheolwr Gwasanaeth ar y pryd. Mae'r broses ymateb bellach wedi ei diwygio er mwyn gallu darparu datrysiad anffurfiol i'r achwynydd o fewn 48 awr; mae proses o gyfri i lawr wedi ei rhoi ar waith er mwyn i reolwyr gwasanaeth gael eu hatgoffa o faint o ddyddiau sydd ganddynt ar ôl er mwyn anfon ymateb ysgrifenedig ac, mewn sefyllfa lle byddai rhaid i Reolwr Gwasanaeth ddelio â nifer o gwynion, bydd y gwaith yn cael ei rannu rhwng staff rhag i'r achwynydd orfod disgwyl am ymateb. Mae gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant raglen waith lawn ar hyn o bryd ac nid ystyrir ei fod yn briodol iddo ymgymryd â gwaith ychwanegol o ran monitro cwynion.
- Bod y llwyth gwaith yn y Gwasanaeth Cynllunio wedi cynyddu o ran faint o waith sydd ynghyd â pha mor gymhleth ydyw; mae hyn wedi'i ddwysáu gan swyddi gwag ac absenoldebau salwch ymysg y swyddogion cynllunio proffesiynol sy'n asesu'r ceisiadau cynllunio. Mae ailstrwythuro wedi digwydd ac mae penodiadau wedi eu

gwneud. Bydd y strwythur staffio yn cael ei adolygu eto er mwyn gweld a oes unrhyw feysydd sydd angen eu cryfhau ymhellach.

- O ran perfformiad mewn perthynas â chanran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sy'n derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach, er bod agwedd y Gwasanaeth tuag at ailalluogi wedi parhau yn gyson, mae rhai o'r achosion a gafwyd yn ddiweddar wedi cynnwys anghenion cymhleth gyda'r canlyniad fod y sgôp i wella sefyllfa'r unigolion perthnasol yn is o gymharu â'r hyn y mae'r Gwasanaeth wedi gallu ei gyflawni yn hanesyddol. Mae perfformiad yn erbyn y dangosydd hefyd wedi'i ddylanwadu gan y nifer fechan o achosion. Ystyrir felly bod y gostyngiad diweddar mewn perfformiad i'w briodoli i'r ffactorau penodol hyn ac nad yw'n golygu unrhyw duedd barhaus.
- O ran gwella presenoldeb yn y gweithle mewn ysgolion, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn y sector uwchradd er mwyn cynorthwyo ysgolion i wella eu graddfeydd absenoldeb salwch ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y gwelliant mewn perfformiad. Yn y sector cynradd, mae 10 ysgol â graddfeydd salwch uwch wedi cael eu nodi a'u targedu i dderbyn cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'r broses rheoli absenoldebau salwch priodol. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod yr ymyrraeth hon yn cael canlyniadau yn y rhan fwyaf o ysgolion a dargedwyd. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gydag ysgolion cynradd er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau absenoldebau salwch ac er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer rheoli salwch gan wybod hefyd fod yna bwysau ar staff addysgu.
- O ran NEET, mae'r Gwasanaeth Dysgu yn ymwybodol o amgylchiadau'r 27 unigolyn sy'n dod dan y categori hwn. Nid yw rhai o'r 27 unigolyn mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant o ganlyniad i faterion iechyd meddwl, digartrefedd ac o ganlyniad i fod yn rhiant neu mewn un achos oherwydd bod yr unigolyn gwrthod ymgysylltu. Mae'r prosiect ADTRAC sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed y cyfeirir atynt fel NEET i gael swydd neu i wneud cais am hyfforddiant, bellach wedi'i sefydlu yn Ynys Môn ac mae'n dechrau cael effaith.
- Mewn perthynas ag oedi mewn Trosglwyddo Gofal, mae'r contract Gofal Cartref fesul ardal sydd newydd gael ei chomisiynu yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau ac mae perfformiad yn Chwarter 3 (1.53) yn welliant o gymharu â pherfformiad yn Chwarter 2 (1.79) ac yn fwy sylweddol ar berfformiad Chwarter 1 (2.30). Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sicrhau capasiti digonol er mwyn bodloni'r galw cynyddol i allu datrys unrhyw bryderon o ran perfformiad yn Chwarter 4 ac ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, sicrhau bod y broses codio data yn gadarn ac nad oes unrhyw gleientiaid yn cael eu codio n anghywir.
- O ran y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith, mae rhan o'r her yn gysylltiedig â bodloni'r amserlenni ar gyfer gallu cynnal cyfweliadau mewn amgylchiadau lle efallai y bydd y Rheolwr Llinell i ffwrdd o'r gwaith neu lle mae staff wedi eu lleoli oddi ar y safle e.e. glanhawyr, staff gofal cartref ac ati. Byddai cynnal cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ar-lein yn golygu colli'r cyswllt wyneb yn wyneb y mae'r cyfweliad yn ei roi ac nid oes gan bob aelod o staff fynediad i'r rhyngrwyd.

**Wedi ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r cadarnhad a ddarparwyd gan y Swyddogion/Aelodau Portffolio ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn –**

- **Nodi'r meysydd lle mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellir yn yr adroddiad mewn perthynas â Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaeth Cynllunio, Presenoldeb yn y Gwaith a threfniadau Rheoli Cwynion o fewn Gwasanaethau Plant ac ei fod**

- **Yn argymell mesurau lliniaru ar gyfer y meysydd hynny fel y nodir yn yr adroddiad.**

**NI CHAFODD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL EU HARGYMELL**

**4 POLISI CLUDIANT YSGOL DIWYGIEDIG**

Cafodd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys Polisi Cludiant diwygiedig ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried a’i graffu arno gan y Pwyllgor.

Adroddodd yr Arweinydd fod y Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig wedi bod yn destun Sesiwn Briffio Aelodau ac ei fod hefyd wedi’i graffu gan y Panel Sgriwtini Cyllid a roddodd ystyriaeth ofalus i’w effaith ariannol. Mae’r polisi diwygiedig yn nodi’n glir drefniadau a meini prawf yr Awdurdod ar gyfer darparu cludiant ar gyfer disgyblion ysgol a choleg Cyngor Sir Ynys Môn.

Amlygodd y Pennaeth Dysgu fod y Polisi diwygiedig yn glynu’n agos at y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol 2014 ac mae’n cynnwys digon o fanylion er mwyn galluogi’r Awdurdod i ymateb i sefyllfaoedd ac amgylchiadau gydag eglurder a chysondeb. Dywedodd y Swyddog bod agweddau o’r trefniadau cludiant ysgol a oedd angen eu hadolygu, eu cadarnhau a’u diwygio; mae hynny wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar y gyllideb cludiant ysgol.

Yn y drafodaeth ddilynol ar yr adroddiad yn y Pwyllgor, codwyd y materion canlynol –

- Oes modd rhoi sicrwydd y bydd cludiant i’r ysgol yn cael ei ddarparu ar ffyrdd y gellid eu hystyried yn beryglus hyd yn oed os yw’r llwybrau hynny yn fyrrach na’r pellter statudol ar gyfer bod yn gymwys?
- A yw ymdriniaeth y polisi o ysgolion ffydd yn gyson â’r ymdriniaeth gyffredinol o’r polisi o ystyried y nodir yn adran 3.2 o’r polisi y bydd yr Awdurdod yn ystyried ar sail disgresiwn, geisiadau am gludiant i’r Ysgol Ffydd addas os mai dyna ddewis y rhiant/gofalwr ac y bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yr ysgol honno yw eu hysgol addas agosaf ond ei fod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.
- Pa effeithiau ariannol sydd i’r polisi?
- Nodir na fydd unrhyw gludiant yn cael ei ddarparu i blant 3 neu 4 oed sy’n mynychu’r ysgol feithrin neu’r dosbarth meithrin. Fodd bynnag, darperir cludiant i blant cymwys ar gyfer dechrau’r flwyddyn ysgol lle bydd y plentyn yn troi’n 5 oed ac yn dechrau addysg amser llawn sy’n golygu ei bod yn bosibl y gallai plentyn 4 oed sy’n cael ei ben-blwydd yn 5 oed yn hwyrach yn y flwyddyn ysgol fod yn gymwys ar gyfer trafnidiaeth ysgol. A yw’r risgiau o gludo plant mor ifanc â 4 oed ar fws heb unrhyw oruchwyliaeth wedi eu hystyried?
- Nodir na fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i glybiau tu allan i’r ysgol nac adref (h.y. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol neu weithgareddau allgyrsiol sy’n disgyn y tu allan i’r cwricwlwm ysgol). Fodd bynnag sut gellir cysoni’r agwedd hon ag anghenion plant rhieni nad oes ganddynt gludiant eu hunain ac sy’n byw mewn ardaloedd lle gall mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn gyfyngedig ac sydd ag angen am glybiau brecwast; sut byddai’r Awdurdod Addysg yn mynd i’r afael â’r gofyn hwn yng nghyd-destun y Polisi?
- Pa mor llwyddiannus yw’r Awdurdod o ran casglu a gweinyddu taliadau am gludiant ysgol?

Darparwyd cadarnhad/esboniad gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio fel a ganlyn –

- Bod adran 2.10 y Polisi yn amlinellu’r trefniadau mewn perthynas â llwybrau peryglus ac yn cadarnhau, ar gyfer dysgwyr sy’n byw yn agosach na’r pellter statudol a nodir yn adran 2.2 o’r polisi, y bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i’r ysgol os yw’r llwybr

DRAFT

wedi'i asesu fel un peryglus gan y Swyddog priodol yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn dilyn yr arweiniad a ddarparwyd yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol 2014.

- O ran darparu cludiant i ysgolion Ffydd, bydd yr Awdurdod yn ystyried darparu cludiant i'r ysgol ffydd addas agosaf os mai dyna ddewis y rhieni a bydd hefyd yn ystyried ceisiadau os nad yr ysgol honno yw'r ysgol yr ysgol addas agosaf ar yr amod fod yr ysgol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol; ni fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant i ysgol Ffydd y tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol os oes ysgol o'r un ffydd yn bodoli o fewn ardal yr Awdurdod Lleol.
- Er na fydd y Polisi yn cael ei weithredu'n llawn tan Medi, 2019 bydd yn effeithio ar y sefyllfa ariannol sydd eisoes wedi amlygu ei hun yn y misoedd diwethaf gyda llai o siwrneiau tacsi. Mae'r polisi yn rheoli disgwyliadau ar gyfer trafnidiaeth ysgol ac yn nodi arweiniad clir ar gyfer pryd y bydd cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu. Rhagwelir y bydd gweithrediad llawn y polisi, dros amser, yn cael effaith bositif ar y pwysau sydd ar y gyllideb ar hyn o bryd.
- O ran cludo plant oedran meithrin ar fws, mae'r Awdurdod yn glynu'n gaeth wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru o ran yr holl agweddau o gludiant ysgol y mae'n eu darparu.
- O ran mynychu clybiau brecwast, fe allai fod yn bosibl edrych ar amseriad cludiant ysgol fel bod y disgyblion hynny sydd angen yn gallu cael mynediad i gludiant er mwyn gallu mynd i glybiau brecwast.
- Er y gall casglu taliadau ar gyfer cludiant fod yn her pan maent yn ddyledus, mae'r bartneriaeth waith sydd wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf rhwng y Gwasanaeth Dysgu, y Gwasanaeth Priffyrdd a'r Gwasanaeth Adnoddau wrth iddynt gydweithio i ddatrys materion trafnidiaeth ysgol yn sail ar gyfer delio'n fwy effeithiol â thaliadau a materion cludiant ysgol eraill.

**Yn dilyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r cadarnhad a ddarparwyd gan y Swyddogion/Aelodau Portffolio ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor Sgriwtini –**

- **Yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig.**
- **Yn argymell, lle bo hynny'n ymarferol, y dylid rhoi ystyriaeth i amseriad cludiant ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion sydd angen gwneud hynny yn gallu cael cludiant i allu mynychu clybiau brecwast.**
- **Nodi sylwadau'r Panel Sgriwtini Cyllid.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL**

**5 MONITRO CYNNYDD: CYNLLUN GWELLA GWASANAETHAU PLANT / PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd yr Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn garreg filltir ym mhroses gwella'r Gwasanaethau Plant oherwydd cytunwyd i gau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) presennol i lawr ac i gynhyrchu Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer 2019-22. Bydd yn cynnwys unrhyw weithredoedd sy'n weddill o'r CGG presennol ac sydd angen eu datblygu ymhellach ac yn ymgorffori'r 14 maes datblygiad a nodwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei adroddiad ail-archwilio yn Rhagfyr, 2018. Bydd y gwasanaeth cyfan yn gweithio dan y Cynllun Datblygu



DRAFT

Gwasanaeth newydd a fydd yn cael ei gytuno arno gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth, y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y Gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â'r gweithgareddau gwella penodol a restrir yn yr adroddiad er mwyn atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed eisoes.

Cyfeiriodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd at y cynnydd o ran recriwtio a chadw staff ynghyd â datblygu'r model Cartrefi Grŵp Bach sy'n fenter a fydd yn galluogi rhai o'r plant a allai fod mewn lleoliadau gofal ymhell i ffwrdd o Ynys Môn i dderbyn gofal mewn amgylchedd "cartrefol" sy'n efelychu'r ffordd y mae eu cyfoedion yn byw h.y. byw yn y gymuned, mynd i'r ysgol leol, gwneud ffrindiau yn yr ardal. Hefyd, fel rhan o'r ymdrech i wella opsiynau lleoli er mwyn bodloni'r galw, mae'r Gwasanaeth yn edrych i recriwtio a chadw mwy o Ofalwyr Maeth ac mae'r adroddiad yn crynhoi'r buddion y bydd y pecyn Gofal Maeth newydd yn eu darparu i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod pan gaiff ei weithredu yn Ebrill, 2019.

Yn y drafodaeth ddilynol ar yr adroddiad yn y Pwyllgor, codwyd y materion canlynol –

- Bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud gan y Gwasanaethau Plant dros oes y Cynllun Gwella Gwasanaeth. Fodd bynnag, cafodd 14 maes ar gyfer datblygiad pellach eu hadnabod gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Oes yna unrhyw feysydd o fewn y 14 a gafodd eu hadnabod sydd angen sylw fel blaenoriaeth ac a oes gan y gwasanaeth y adnoddau er mwyn gallu mynd i'r afael a materion a datblygu'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth?
- Trefniadau mewn perthynas â'r Cartrefi Grŵp Bach gan gynnwys staffio, cofrestru a chynlluniau ar gyfer agor mwy o gartrefi grŵp bach y tu hwnt i'r 2 y disgwylir eu hagor yn ystod blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21.
- A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i ddyrannu tai cyngor i unigolion / teuluoedd sy'n dymuno maethu a fyddai'n cyflawni'r un amcan a chael staff yn gofalu am blant mewn eiddo sy'n berchen i'r Cyngor.

Darparwyd cadarnhad/esboniad i Swyddogion ac Aelodau Portffolio fel a ganlyn –

- Yn ystod y cyfnod o weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant, mae'r Gwasanaethau Plant wedi datblygu gwell hunan-ymwybyddiaeth ac yn gwybod lle mae'r Gwasanaeth, lle mae'n dymuno mynd a'r modd y bydd yn gwneud hynny. Mae ôl-ofal plant a phobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal ymysg y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y cam nesaf y mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar eu cyfer. Mae'r broses o wella a hunanwerthuso yn y Gwasanaethau Plant yn un barhaus ac mae'n rhaid i'r broses hon ddigwydd o fewn cyd-destun yr adnoddau sydd ar gael. Y dasg yw cynnal cyflymder y gwelliannau gan felly ddatblygu gwasanaeth sy'n gallu gwrthsefyll yr heriau y mae'r Gwasanaethau Plant yn eu hwynebu.
- Bydd Cartrefi Grŵp Bach yn galluogi rhai plant sydd ar hyn o bryd mewn lleoliadau gofal ymhell o Ynys Môn i ddychwelyd i'r ardal leol er mwyn byw o dan amodau sy'n dyblygu i'r raddfa y mae hynny'n bosibl, amgylchedd cartrefol arferol. Nid eu bwriad yw darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y mae ganddynt anghenion acíwt neu gymhleth a fydd yn parhau i dderbyn darpariaeth arbenigol sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion penodol. O ran staff, y prif nod yw cadw'r rota staffio yn gyson, lleihau'r newidiadau staffio er mwyn i'r plant a fydd yn byw yn y Cartrefi Grŵp Bach weld yr un wynebau ac i gael cyswllt parhaus â'r un gofalwyr a fydd yn dod â pharhad a normalrwydd i'r gofal y byddant yn ei dderbyn. Mae eiddo Awdurdodau Lleol wedi eu hadnabod ac mae gwaith wedi dechrau ar wneud y cartrefi hynny'n addas gan ystyried gofynion cofrestru AGC. Bydd adnabod eiddo pellach mewn lleoliadau addas yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Tai ac Addysg.
- Yn unol â'r polisi tai, gall y Gwasanaeth Tai ystyried mynediad i dai cyngor i, er enghraifft, deuluoedd maeth / gofalwyr maeth sydd angen ystafell wely ychwanegol er

mwyn lletya plentyn maeth a allai fel arall fod wedi eu rhoi mewn gofal ac y byddai asesiad wedi ei wneud yn seiliedig ar yr angen hwnnw.

**Yn dilyn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r cadarnhad a ddarparwyd gan y Swyddogion / Aelodau Portffolio ar y pwyntiau a godwyd, penderfynwyd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cadarnhau ei fod yn fodlon â'r canlynol –**

- **Y camau a gymerwyd er mwyn datblygu gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd;**
- **I'r Gwasanaeth symud ymlaen â Chynllun Datblygu Gwasanaeth newydd a fydd yn disodli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol;**
- **Cyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL**

- Cyflwynwyd adroddiad gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn disgrifio gwaith ac allbwn y Panel yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2018 a Chwefror, 2019 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel, ar y prif bwyntiau gan nodi nad oes unrhyw faterion penodol wedi eu huwchgyfeirio ar gyfer sylw'r Pwyllgor yn ystod y chwarter hwn; gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon â chadernid y Panel o ran monitro hyd yma.

Nododd y Pwyllgor fod y Panel yn ei gyfarfod Chwefror, 2019 wedi rhoi ystyriaeth i addysg ddewisol yn y cartref a'i fod wedi gofyn am ddiweddariad ar ddatblygiadau ymhen 6 mis. Hysbyswyd y Pwyllgor, yn absenoldeb canllawiau cenedlaethol ar hyn o bryd, fod y Panel wedi cytuno i weithio â phobl leol er mwyn cefnogi rhieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref a hynny drwy becyn gwybodaeth.

Nododd y Pwyllgor ymhellach, ar Ddiwrnod Gwaith Cymdeithasol, ei bod yn briodol i Aelodau ddatgan eu diolch a'u gwerthfawrogiad am y gwaith a wneir gan Weithwyr Cymdeithasol y Cyngor a hynny mewn amgylchedd sy'n gallu bod yn hynod heriol ar adegau.

**Yn dilyn ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r canlynol –**

- **Y cynnydd a wnaed hyd yma o ran gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant o ran cyflawni ei raglen waith.**
- **Bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol bellach wedi ei gau gyda'r 2 faes blaenoriaeth sydd eto i gael eu gweithredu'n llawn i gael eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd.**
- **Y meysydd gwaith a grybwyllwyd yn ystod Ymweliadau Laming fel ffordd o gryfhau atebolrwydd a gwybodaeth a dealltwriaeth Aelodau'r Panel.**
- **Rhaglen ddatblygu barhaus Aelodau'r Panel gyda llawer ohoni'n cael ei darparu'n fewnol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL**



DRAFT

## 6 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd, o dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 7 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: ACHOS BUSNES LLAWN AR GYFER ARDAL LLANGEFNI (ARDALOEDD BODFFORDD A CORN HIR)

*Cadeiriwyd yr eitem hon gan y Cynghorydd Richard Owain Jones, yr Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.*

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys yr Achos Busnes Llawn am ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd yr Arweinydd a'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, os bydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, y bydd modd diogelu 50% o'r cyllid ar gyfer y prosiect, prosiect sydd ar ddiwedd y cyfnod Band A.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod cais am Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg am Uned Feithrinfa wedi'i gymeradwyo ym mis Tachwedd, 2018 a bod y Gweinidog Addysg wedi cymeradwyo mewn egwyddor, yr Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer yr ysgol newydd yn Ionawr, 2019. Mae'r Achos Busnes Llawn yn nodi'r cyfiawnhad strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol dros y cais. Cyfeiriodd y Swyddog at y fanyleb ar gyfer yr adeilad a fydd ar gyfer ysgol gymunedol ar gyfer 360 o ddisgyblion ac a fydd yn cymryd i ystyriaeth y datblygiadau tai arfaethedig yn y rhan hon o Langefni ac yn darparu capasiti ychwanegol o hyd at 10%; bydd gan yr ysgol brif neuadd fwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol, ystafell gyfarfod gymunedol ac uned feithrinfa ar gyfer plant rhwng 2 a 4 oed. Bydd yr ardaloedd allanol yn cynnwys cae chwarae, ardal gemau MUGA, ardal chwarae llain galed, ardal chwarae meddal a gardd. Mae'r Achos Busnes Llawn hefyd yn nodi'r amserlen amlinellol ar gyfer y gwaith y gwaith o adeiladu ac agor yr ysgol.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 30 Ebrill 2018 i gymeradwyo ysgol newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir hefyd yn cyfeirio at Ysgol Henblas lle bydd darpariaeth addysg yn cael ei chynnal yn Llangristiolus un ai drwy gynnal Ysgol Henblas fel y mae neu drwy gyfuno Ysgol Henblas â'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle. Roedd y penderfyniad hwn yn gysylltiedig â'r Cyngor yn derbyn sicrwydd fod safonau Ysgol Henblas yn gwella a bod niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson. Mae ail archwiliad o Ysgol Henblas gan Estyn ym mis Hydref 2018 yn cadarnhau bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr archwiliad ym Mai, 2017 ac y gellir ei tynnu oddi ar y rhestr ysgolion sydd angen gwelliannau sylweddol. Mae rhagamcanion hefyd yn dangos y bydd niferoedd disgyblion yn Ysgol Henblas yn parhau yn gyson ar gyfer y 3 blynedd nesaf. O ganlyniad felly, mae'r Awdurdod yn teimlo ei fod wedi cael y sicrwydd angenrheidiol o ran gwella safonau yn Ysgol Henblas a'r sefydlogrwydd o ran niferoedd disgyblion. Argymhellir felly bod Ysgol Henblas yn cael ei thynnu o'r cynnig.

Yn y drafodaeth ddilynol ar yr adroddiad yn y Pwyllgor, codwyd y materion canlynol –

- Sut mae'r Achos Busnes Llawn yn bodloni'r materion a godwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor yn ystod y cam Achos Busnes Amlinellol mewn perthynas â materion priffyrdd a digonolrwydd y trefniadau parcio; materion traffig a diogelwch y ffyrdd yn ardal yr ysgol newydd a dyfodol Canolfan Bodffordd fel adnodd cymunedol?
- Pa mor fforddiadwy yw Achos Busnes Llawn y Cyngor o ystyried y rhaglen arbedion heriol y bydd yn rhaid iddo ei weithredu dros y 3 blynedd nesaf o leiaf.

Darparwyd cadarnhad / esboniad gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio fel a ganlyn –

DRAFT

- O ran safonau parcio ysgolion newydd, mae angen lle parcio ar gyfer pob aelod o staff, ar gyfer ymwelwyr cyfwerth â hanner nifer y lleoedd i staff a rhieni, lle ar gyfer pob 10 disgybl – yn y cynllun hwn mae 50 o leoedd parcio i staff, 25 i ymwelwyr a 36 i rieni (cyfanswm o 61 o ymwelwyr). Fodd bynnag, mae'r cynllun cyffredinol yn darparu cyfanswm o 70 o leoedd parcio ar gyfer ymwelwyr, yn cynnwys 6 lle parcio anabl, ar ben y 50 i staff gan roi cyfanswm o 120 o leoedd parcio.
- O ran materion priffyrdd, mae Swyddogion Priffyrdd wedi ymdrin â'r cais yn yr un ffordd ag unrhyw gais allanol arall. Mae Swyddogion Priffyrdd wedi asesu llif y traffig ar gyfer y cynllun sy'n wahanol i'r llif traffig cysylltiedig â'r rhan fwyaf o ddatblygiadau gan fod y niferoedd uchaf yn cyrraedd ac yn gadael y safle yn y bore ac yn y prynhawn, adeg danfon a nôl y plant o'r ysgol; mae Swyddogion wedi rhoi sylw penodol i effeithiau posib y cynllun ar ddiogelwch y ffyrdd a defnyddwyr cyffredinol y ffordd yn yr ardal. Ystyriwyd nifer o opsiynau rheoli traffig a'r opsiwn a ffafrir oedd cylchfan ger mynedfa'r ysgol newydd a fydd yn gweithredu fel mesur tawelu traffig. Mae'r gylchfan wedi ei dylunio gan gwmni allanol ac wedi'i hasesu gan Reolwr Diogelwch Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru sy'n fodlon, o ran gweledEdd o gyfeiriad Bodffordd, fod y gylchfan wedi'i lleoli ar bellter priodol o'r dref a'r fynedfa i stad Corn Hir. Yn ogystal, bydd croesfan Twcan wedi'i leoli rhwng y gylchfan ar ochr y dref a'r troad i mewn i Fryn Meurig a Chorn Hir. Bydd llwybrau troed ar y ffordd i'r groesfan newydd i gerddwyr hefyd yn cael eu lledaenu. Er mwyn sicrhau bod traffig yn arafu o gyfeiriad Bodffordd bydd nifer o arwyddion ffordd newydd yn cael eu codi er mwyn hysbysu gyrwyr o'r drefn ffyrdd newydd sydd o'u blaenau – nid yw twmpathau cyflymder yn opsiwn yn yr ardal hon ac nid yw'n debygol y byddai'r Heddlu yn cefnogi hyn.
- Bod trafodaethau wedi eu cynnal mewn perthynas â diogelu'r defnydd cymunedol o Ganolfan Bodffordd ac mae cyfarfodydd wedi eu cynnal; mae hon yn broses barhaus a disgwylir rŵan i'r trafodaethau hynny gael eu symud i'r cam nesaf.
- O ran ariannu'r prosiect mewn amser o gyni ariannol, mae manylion y costau wedi eu cynnwys yn yr Achos Busnes Llawn gyda 50% yn cael ei ariannu drwy Raglen Moderneiddio ysgolion $21^{ain}$ Ganrif Llywodraeth Cymru a 50% drwy adnoddau cyfalaf y Cyngor. Disgwylir i gyfraniad y Cyngor gael ei ariannu drwy dderbyniadau cyfalaf yn dilyn gwerthiant safleoedd di-angen a drwy fenthyca digymorth. Mae'r cynllun yn wahanol i'r cynlluniau moderneiddio ysgolion a weithredwyd yn flaenorol gan ei fod yn creu yn hytrach na'n lleihau lleoedd ysgol yn yr ardal, gyda diffyg capasiti yn y rhan hon o Langefni yn broblem. Er mai canlyniad y prosiect penodol hwn felly yw cost net ychwanegol yn hytrach nag arbediad, mae'r costau'n cael eu rhannu ar draws y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn gyffredinol. Mae'r costau benthyca blynyddol i ad-dalu'r swm sy'n cael ei fenthyca'n ddigymorth yn cael eu cyfri a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol. Yn dilyn y problemau capasiti dybryd yn Ysgol Corn Hir, doedd gwneud dim ddim yn opsiwn ac o ystyried argaeledd cyllid Llywodraeth Cymru a chyfraddau llog isel, pethau efallai na fydd ar gael yn y dyfodol, y cynnig hwn yw'r opsiwn gorau yn ariannol.

**Wedi ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r esboniadau a ddarparwyd gan y Swyddogion / Aelodau Portffolio ar y pwyntiau a godwyd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r canlynol –**

1. **Yr Achos Busnes Llawn ar gyfer ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**
2. **Bod yr Achos Busnes Llawn ar gyfer ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru.**
3. **Bod Ysgol Henblas yn cael ei thynnu o'r cynnig.**

DRAFT

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL**

**Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Alun Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busines y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees – Cadeirydd y Cyngor Sir |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn Gadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**3 ETHOL IS GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod Galw i Mewn a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2018

**YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)
Cynghorydd John Griffith (Is-gadeirydd) (ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)

Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts

Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd)

**Y rhai sydd wedi galw'r cais i mewn nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor**

Cynghorwyr Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers.

**Aelodau Portffolio**

Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd)
Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg), Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)
Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**WRTH LAW**:

Prif Weithredwr
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Pennaeth dros dro Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Prif Swyddog Prisio (TDE)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU**:

Cynghorwyr Aled Morris Jones, Richard Owain Jones, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Cynghorydd R. G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Aled Morris Jones nad oedd yn bresennol oherwydd profedigaeth deuluol, bu i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dylan Rees, gadeirio'r cyfarfod. Cafodd y Cynghorydd John Griffith ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Wrth groesawu pawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, fe wnaeth y Cadeirydd estyn croeso penodol i Mr Dyfed Wyn Jones, sy'n gynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr ar gyfer y sector ysgolion cynradd, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

## 2 GALW PENDERFYNIAD I MEWN – ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2017/18

Cafodd penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill, 2019, i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2017/18, ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Peter Rogers, Kenneth Hughes, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen a Shaun Redmond. Cyflwynwyd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, y cais i alw'r penderfyniad i mewn ac adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Ebrill, 2019 a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2017/18.

Eglurodd y Cynghorydd Peter Rogers, fel y Blaen Aelod Galw-i-Mewn, y rhesymau dros alw'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ebrill 2019 i mewn, fel y nodwyd yn y ffurflen berthnasol -

- Y ffordd bron yn wamal y bu i'r Pwyllgor Gwaith basio'r adroddiad hwn
- Roedd yr adroddiad a roddwyd i'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi sylw i ddyledion drwg a cholledion ariannol yn y cyfrifon oherwydd costau atgyweirio sy'n parhau
- Ni roddwyd unrhyw dystiolaeth mewn gwirionedd o gefnogi addysg bellach ar gyfer pobl ifanc yn ystod eu blynyddoedd terfynol neu ar ôl gadael ysgol, er mwyn cefnogi eu hanghenion hyfforddiant.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers ei fod yn bryderus am y ffordd bron yn frysiog yr oedd y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2017/18 yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2019, gydag ychydig iawn o gwestiynau yn cael eu gofyn am yr hyn yr oedd y ffigyrau yn eu dangos am berfformiad yr Ymddiriedolaeth ac a oedd yn bodloni ei nodau ac amcanion o gynorthwyo disgyblion y presennol a'r gorffennol i allu cwblhau eu haddysg a/neu addysg bellach a hyfforddiant. Cyfeiriodd y Cynghorydd Rogers at hanes Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a'i egwyddorion sylfaenol a dywedodd ei fod yn bryderus fod y cyfrifon yn dangos na wneir y gorau o'r incwm o'r tir a'r mân-ddaliadau sy'n ffurfio rhan o stad David Hughes gan i'r Ymddiriedolaeth wneud colled ariannol yn 2017/18 o ganlyniad i gostau atgyweirio. Gyda rheolaeth fwy manwl gellid cynhyrchu mwy o refeniw o'r tir a'r eiddo i'w ddefnyddio at ddibenion addysgol sef y rheswm dros ffurfio'r Ymddiriedolaeth. Tynnodd y Cynghorydd Rogers sylw at y ffaith fod Adroddiad Blynyddol 2014/15 yn nodi bod grantiau o Gronfa'r Ymddiriedolaeth wedi stopio nifer o flynyddoedd ynghynt a holodd a yw'r ffurflenni grant yn cael eu cylchredeg fel y dylent ym mis Ebrill bob blwyddyn. Tra bod y Pwyllgor gwaith, fel rhan o'i benderfyniad ar y mater, yn cynnal adolygiad o'r Ymddiriedolaeth, y diweddaraf mewn nifer o newidiadau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd yn ei farn ef, ac wedi gofyn am adroddiad cynnydd o fewn 6 mis, gellid defnyddio'r amser hwnnw yn gwahodd ceisiadau am gyllid, dosbarthu'r arian ac yn helpu'r bobl ifanc yn y ffordd yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi bwriadu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rogers hefyd at lywodraethiant yr Ymddiriedolaeth fel sydd wedi'i grynhoi yn yr Adroddiad Blynyddol yn nodi mai Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a bod yr elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod ymddiriedolwyr newydd yn cael eu briffio ar eu dyletswyddau cyfreithiol o dan y gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Bydd unrhyw anghenion hyfforddiant yn cael eu hadnabod a'u cyflawni'n fewnol gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor. Holodd y Cynghorydd Rogers a yw hyn yn digwydd mewn gwirionedd.

DRAFT

Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers, wrth alw'r penderfyniad hwn i mewn, ei fod yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ddiddymu'r penderfyniad a wnaeth ar 29 Ebrill er mwyn rhoi gweithdrefn yn ei lle a fyddai'n darparu buddion uniongyrchol i bobl ifanc yr Ynys heddiw, tra rhoddir ystyriaeth i ddiwygio'r Ymddiriedolaeth yn y tymor hir gan gynnwys edrych ar a oes gan yr Ymddiriedolwyr y sgiliau priodol ac a ydynt yn derbyn hyfforddiant. Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd R. Llewelyn Jones a'r Cynghorydd Kenneth Hughes, nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, siarad gan eu bod wedi arwyddo'r cais i alw'r penderfyniad i mewn. Fe wnaethant siarad o blaid y Cynghorydd Peter Rogers gan nodi ei bod yn bwysig fod y mater hwn yn cael ei graffu er mwyn sefydlu a oes modd gwneud pethau'n well neu'n wahanol er lles, yn y pen draw, y bobl ifanc sydd i fod i elwa o Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, wrth gadarnhau cyfansoddiad Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, fod yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys tair cronfa ac un o'r rheini yw Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol) sy'n cynhyrchu incwm rhent gan y tir a'r bythynnod sy'n ffurfio rhan o'r gwaddol. Ar ôl i gostau rheoli, costau ariannol a chostau gweinyddol y stad gael eu tynnu, gellir dosbarthu gweddill yr incwm net. Bydd chwarter o unrhyw incwm dros ben yn cael ei dalu i Elusen David Hughes i'r Tlodion; nid yw'r elusen hon yn gysylltiedig â'r Cyngor ac fe'i rheolir yn annibynnol. Mae gweddill yr incwm wedyn yn ffurfio rhan o Gronfa Addysg bellach Ynys Môn sydd wedyn yn cael ei rhannu'n ddwy gronfa bellach – Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn lle defnyddir ⅓ o'r cyllid er budd disgyblion presennol yn y pum ysgol uwchradd a weithredir gan y Cyngor, a'r Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn lle defnyddir ⅔ o'r cyllid er mwyn cynorthwyo cyn ddisgyblion y pum ysgol uwchradd gydag addysg bellach neu addysg uwch a hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolwyr (y Cyngor) yn dosbarthu cyllid yn unol â Chynllun dyddiedig 18 Gorffennaf, 1960 (sy'n addasu'n sylweddol y Cynllun 1939 blaenorol) y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i reoleiddio ganddo. Mae'r swyddogaeth hwn h.y. dosbarthu grantiau addysgol, wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Dysgu.

Gan ddyfynnu o'r Saesneg, dywedodd y Swyddog fod y Cynllun 1960 yn nodi "the Council may apply such yearly sums they think fit to provide special benefit for senior pupils at county schools. The Council may apply such yearly sums as they think fit being not more than ⅓ of the said net yearly income in providing such special benefit of any kind not normally provided by the Council in its capacity as Local Education Authority for senior pupils as in the opinion of the Council may assist or encourage the said pupils to finish their courses at one of the county's schools specified in this scheme provided that if in any year a sum less than the said ⅓ is expended under this clause, the Council may if they think fit accumulate the balance for application under this clause in any subsequent year." Mae'r cynllun hefyd yn darparu o dan "Buddion Addysgol Eraill" bod "subject thereto, the residue of the said net yearly income  shall be applied by the Council in one or more of the following ways for the benefit of the persons of either sex resident in the administering county of Anglesey who have not attained the age of 25 years who have for not less than 2 years at any time attended one of the county schools specified in the Scheme and who are in the opinion of the Council in need of financial assistance." Mae'r Cynllun yn nodi'r hyn y gellir defnyddio'r cyllid ar ei gyfer sef -

- "in the award to beneficiaries of exhibitions tenable at any training college for teachers, university or other institution of further, including professional and technical education, approved by the Council to be awarded under rules to be made by the Council including rules as to the value and period of tenure of exhibitions and qualifications and method of ascertainment and selectin of candidates;

- in the provision of financial assistance, outfits, clothing, tools, instruments or books to enable beneficiaries on leaving school, university or any other educational establishment to prepare for or to assist their entry into a profession, trade or calling;
- in otherwise promoting the further education or training including postgraduate study of beneficiaries."

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, er bod y Cynllun yn dynodi sut y dylid gwario'r cyllid, mae'r iaith a ddefnyddir yn golygu nad yw rhai o'r diffiniadau yn hawdd eu dehongli ac felly mae'n anodd ei weithredu wrth benderfynu pwy sy'n gymwys am gyllid o dan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gofyn, er mwyn sicrhau eglurder ac er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion i gael gwell dealltwriaeth o gymhwyster o dan reolau'r Ymddiriedolaeth, bod y diffiniadau yn cael eu hadolygu gyda chymorth cyngor cyfreithiol allanol. Mae'r broses hon wedi dechrau.

Gofynnodd y Cynghorydd Bryan Owen, aelod o'r Pwyllgor ac un o'r rhai a arwyddodd y cais i alw'r penderfyniad i mewn, am gadarnhad o'r incwm a oedd wedi'i greu gan yr Ymddiriedolaeth, cyfrifoldeb pwy yw hyfforddi'r Ymddiriedolwyr ac a yw'r hyfforddiant wedi'i ddarparu.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017/18 wedi derbyn cyfanswm incwm o £128,223, £124,087 o rent a £4,136 o incwm buddsoddi. Daeth gwariant i £177,917 ac o hwnnw roedd £119,473 wedi'i wario ar drwsio a chynnal a chadw a chafodd £13,902 pellach ei wario ar gostau cefnogi gan arwain at golled diwedd blwyddyn o £62,786. Nod oedd hyn yn annisgwyl gan fod y gwariant cyfalaf wedi ei gynllunio. Nid oedd unrhyw incwm dros ben i ddosbarthu cyllid ohono yn 2017/18, ond roedd cyllid na ddosbarthwyd yn y blynyddoedd blaenorol ar gael a rhoddwyd grantiau o hyd at £1,000. Dywedodd y Swyddog fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud elw yn y gorffennol ond oherwydd y buddsoddiad yn y Stad sy'n dod o Gronfa'r Ymddiriedolaeth, na ddigwyddodd hynny yn 2016/17 na 2017/18. Dywedodd y Swyddog na allai gadarnhau a oedd y Pwyllgor Gwaith, fel y corff gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, wedi derbyn hyfforddiant.

Rhoddwyd cyfle i'r Arweinydd, yr Aelod Portffolio Cyllid a'r Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant ymateb; fe bwysleisiwyd ganddynt mai dogfen ffeithiol yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2017/18 ac mai dyma'r ail dro i'r adroddiad blynyddol ddod gerbron y Pwyllgor Gwaith, y cyntaf oedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/17 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym Mawrth 2018. Mae cyfrifon 2017/18 yn dangos colled oherwydd yr arian a gafodd ei wario ar drwsio, cynnal a chadw ac uwchraddio'r stad. Gan gydnabod fod y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei strwythuro ar hyn o bryd yn gyfyngedig a bod iaith y cynllun y caiff ei reoli o dano yn hen ffasiwn, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gofyn bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei hadolygu er mwyn i gyllid yr Ymddiriedolaeth allu cael ei ddosbarthu'n fwy effeithiol ac i nifer uwch o fuddiolwyr mewn ffordd sy'n ymateb yn well i'w hanghenion ac mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion addysgol modern yn well.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Peter Rogers, fel y Blaen Aelod Galw i Mewn, y cyfle i grynhoi'r drafodaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau a ganlyn –

- Nododd a derbyniodd y Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn dangos sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i reoli a'r arian a wariwyd yn ystod y flwyddyn a'u bod yn ddatganiadau ffeithiol a baratowyd yn unol â gofynion adrodd ariannol ar gyfer elusennau er y nodwyd na chyfeirir ynddo at Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2017/18 yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill, 2019 yn cyd-fynd â Chyfarfod Blynyddol Cyffredinol.

- Nododd y Pwyllgor fod arian wedi'i wario dros y 2 flynedd diwethaf yn uwchraddio'r stad sy'n cyfri am y diffyg refeniw dros ben ar gyfer ei ddosbarthu yn ystod y blynyddoedd hynny.

- Nododd y Pwyllgor bod adolygiad o'r Ymddiriedolaeth wedi'i gomisiynu gyda golwg ar ei ddiweddaru i'w wneud yn fwy perthnasol i'r amgylchedd addysg heddiw, ac fe groesawyd hynny yn enwedig os oedd yn golygu bod potensial i fwy o bobl ifanc elwa ohono. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor y dylai'r adolygiad gael ei gwblhau cyn gynted â phosib.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai'r bwriad yw cadarnhau a diweddaru geiriad cynllun gweithredu'r Ymddiriedolaeth tra'n gadael ei nodau ac amcanion heb eu newid a allai olygu y gellid cwblhau'r adolygiad yn gynt.

  - Nododd y Pwyllgor nad yw hi'n glir a yw Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn wedi derbyn hyfforddiant ac o ganlyniad mae eu gofynion hyfforddiant angen eu sefydlu a'u delio â nhw fel bo'n briodol.

  - Nododd y Pwyllgor bod cwmpas i Sgriwtini ychwanegu gwerth drwy graffu adolygiad yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn er mwyn gweld a yw'r newidiadau a wnaed yn bodloni'r gofynion.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddod i benderfyniad ar yr eitem galw i mewn, sef:

- Gwrthod y galw i mewn a chadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Gwaith
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a'i gyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad y dylid ei ailystyried a / neu ei ddiwygio.
- Gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith a chyfeirio'r mater gydag argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

  Yn ogystal, fe allai'r Pwyllgor ddymuno gwneud argymhellion ar unrhyw rai o'r pwyntiau a nodwyd yn ystod y drafodaeth.

  Cafodd ei argymell a'i eilio y dylai'r cais a gafodd ei alw i mewn gael ei wrthod. Cafwyd gwelliant y dylid derbyn y cais a gafodd ei alw i mewn ac y dylid anfon y penderfyniad yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith; ni chafwyd eilydd i'r gwelliant. Yn y bleidlais i ddilyn, cafodd y cynnig i wrthod y mater a oedd wedi'i alw i mewn ei basio.

  **Penderfynwyd –**

- **Gwrthod y Galw i Mewn o benderfyniad y Pwyllgor Gwaith a wnaed yng nghyfarfod 29 Ebrill, 2019 mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2017/18 ac,**
- **Argymell –**

  - **Bod anghenion hyfforddiant Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael eu hystyried a'u datrys;**



DRAFT

- **Bod yr adolygiad o Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a ysgogwyd gan y Pwyllgor Gwaith hefyd yn cael ei gyfeirio at Sgriwtini ar gyfer ei ystyried.**

*Daw penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ebrill, 2019 yn weithredol ar unwaith.*

**Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 3 Mehefin 2019 |
| **Pwnc:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2017/18) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | CYNG ALED M JONES |
| **Aelod(au) Portfolio:** | CYNG DAFYDD RHYS THOMAS |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. – Argymhelliad/ion**

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

*Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -*

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 4. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod 2019/20.

**1.3.2** Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch1 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2019/20.

**1.3.3** Adolygu targedau 19/20 i sicrhau eu bod yn heriol ond bod modd eu cyflawni, ac os nad fydd targedau'n cael eu cyrraedd yn y flwyddyn, mai'r disgwyliad lleiaf yw gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**1.3.4** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**1.3.5** Unwaith eto, mabwysiadu targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul aelod o staff llawn-amser cyfwerth ar gyfer 2019/20.

**1.3.6** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.

**1.3.7** Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Adroddir y bu dirywiad mewn rhai agweddau ar berfformiad yn y gwasanaethau oedolion a'r gwasanaeth cynllunio yn ystod Chwarter 3 a Chwarter 4. Pa fesurau lliniaru ychwanegol ystyriwyd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn ystod 2019/20?
2. Pa mor gyraeddadwy yw'r targed ar gyfer presenoldeb yn y gwaith am 2019/20 o ystyried perfformiad cronnus y Cyngor hyd at Mawrth, 2019?
3. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwysau ariannol ar wasanaethau. Pa gyfraniad pellach gall y Panel Sgriwtini Cyllid ei wneud i fynd i'r afael â'r pwysau ar wasanaethau?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos cynnydd neu ddiffyg cynnydd (fel y bo'n berthnasol).

1.2 Datblygwyd y system hon o adrodd yn chwarterol ar y cerdyn sgorio ochr yn ochr â'r ffrwd waith sy'n nodi ac yn rhoi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn benodol weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.

1.3 Cafodd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni eu penderfynu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad gan Benaethiaid Gwasanaeth ac mae'r cerdyn sgorio yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin 2019.

## 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol

## 7 – Oblygiadau Ariannol

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei chadarnhau wrth i'r broses o gau'r cyfrifon ddirwyn i ben

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 4
Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 4
Atodiad C - Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 – Chwarter 4

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2018/19 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2019 ac a dderbyniwyd ganddo.)

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2018/19)**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma'r cerdyn sgorio ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth, 2019.

**1.2** Bydd yr adroddiad hwn a'r cerdyn sgorio (Atodiad A) yn cael eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin, 2019.

**1.3** Trwy wneud y gwaith hwn, mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau'n sefydlu mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae'r sylwadau gan yr UDA / Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar y ddarpariaeth weithredol.

## 2.1 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.1.1** Mae adran Rheoli Perfformiad y cerdyn sgorio yn dangos perfformiad yn erbyn y dangosyddion sydd wedi eu hamlinellu a'u blaenoriaethu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.1.2** Ar ddiwedd blwyddyn heriol arall i'r sector cyhoeddus, mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif o'r dangosyddion wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau a dylid dathlu'r hyn a gyflawnwyd wrth i ni ddrafftio'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael ei graffu yn ystod yr hydref.

**2.1.3** At ddibenion cymharu ac yn <u>**seiliedig ar ganlyniadau chwarter 17/18**</u>, byddai ein perfformiad diwedd blwyddyn yn gweld newid chwartel er gwell mewn 4 o'n dangosyddion (dim ond 15 o ddangosyddion y gallwn eu cymharu'n genedlaethol ar hyn o bryd) a dirywiad yn un o'n 1 dangosyddion. Yn gyfan gwbl byddai 93% o'r dangosyddion cymaradwy hyn wedi gweld gwelliant neu wedi aros yn eu chwarter presennol –

Dyma'r 4 dangosydd sydd wedi symud i fyny chwartel ers 17/18;

a) PAM/017 – Nifer yr ymweliadau i ganolfannau hamdden lle gwelwyd cynnydd o 45 mil o ymweliadau o gymharu â 17/18. Byddai'r perfformiad hwn wedi golygu bod y dangosydd yn y <u>chwartel Canolrif uchaf</u> yn ystod 2017/18.
b) PAM/019 – Canran yr apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod, wedi gwella o 47% yn 17/18 i 74% yn 18/19. Byddai'r perfformiad hwn wedi gweld y dangosydd yn symud o'r chwartel is i'r <u>chwartel Canolrif uchaf</u> yn ystod 2017/18. Fodd bynnag, gan fod y dangosydd hwn yn delio â nifer fach o geisiadau, gall y perfformiad amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn.
c) PAM/008 – Canran presenoldeb disgyblon mewn ysgolion cynradd, gyda pherfformiad o 93.9% ym mlwyddyn academaidd 17/18. Mae'r dangosydd hwn eisoes wedi'i gyhoeddi trwy Lywodraeth Cymru a dyma'r sail ar gyfer meincnodi canlyniadau eleni (Canlyniadau PAM 18/19). Er gwaethaf y gostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion o'r 94.6% a welwyd yn ystod blwyddyn academaidd 16/17 (cyhoeddwyd yng nghanlyniadau PAM 17/18), bu gostyngiad fwy byth mewn nifer fawr o awdurdodau lleol ac oherwydd hynny, golygai ein perfformiad fod y dangosydd yn y <u>chwartel uchaf</u> yn ystod 2018/19.

d) PAM/032 – Sgôr cyfartalog wedi'i gapio ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11, gyda pherfformiad o 349.1 ym mlwyddyn academaidd 17/18. Fel yr uchod, mae'r canlyniadau eisoes wedi eu cyhoeddi trwy Lywodraeth Cymru ac mae'r dangosydd yn y chwartel Canolrif uchaf.
e) PAM/009 – Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) gyda pherfformiad o 1.1% ar ddiwedd 2018, gwelliant o'r 4.2% yn 2017. Mae'r dangosydd yma eisoes wedi'i gyhoeddi trwy Gyrfa Cymru ac mae'r perfformiad wedi gweld y dangosydd yn symyd o'r chwarter isaf i'r chwartel uchaf yn 2018/19.

Yr 1 dangosydd a symudodd i lawr yn y chwarteli oedd;

a) PAM/012 – Canran yr aelwydydd y llwydwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref, dirywiad o 65.2% yn 17/18 i 52.93% yn 18/19. Byddai'r perfformiad hwn wedi gweld y dangosydd yn symud i'r chwartel is yn 17/18.

**2.1.4** Cafodd canlyniadau DP (01-11) y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ch3. Oherwydd yr anghysondebau yn yr ystadegau a ddarparwyd gan Awdurdodau trwy Gymru, cyhoeddwyd y canlyniadau hyn fel ystadegau arbrofol unwaith eto eleni ac felly nid ydynt ar gael at ddibenion cymharu. Felly ni fydd modd cymharu ein data Gwasanaethau Cymdeithasol ar lefel genedlaethol am y tro.

**2.1.5** Fodd bynnag, gallwn nodi fod 75% o'r dangosyddion cymaradwy a fesurir ar gyfer y Gwasanaeth Plant wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra bod y Gwasanaethau Oedolion wedi gweld dirywiad o 67% yn y perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda 4 o'r 6 dangosydd a fesurir wedi dirywio.

**2.1.6** Mae'r dangosyddion Addysg sydd ar gael (dangosyddion 13,14,31,32,33 a 34 ar y cerdyn sgorio) wedi perfformio'n dda dros y flwyddyn gyda 67% o'r dangosyddion wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, a lle mae'r dangosyddion blwyddyn-ar-ôl-blwyddyn wedi dirywio ers blwyddyn academaidd 16/17, mae cynghorau eraill wedi dirywio mwy, fel yr eglurir uchod (2.1.3). Roedd tystiolaeth hefyd fod pob un o'r Cyfnodau Allweddol wedi gwella yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

**2.1.7** Mae ein perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer yr holl dangosyddion cymaradwy (cyfanswm o 32) yn dangos bod 69% naill ai wedi gwella neu gynnal y perfformiad yn ystod y flwyddyn (19 wedi gwella a 3 wedi cynnal y perfformiad).

**2.1.8** Mae'r perfformiad hwn yn braf i'w weld ar y cyfan ac mae'n adlewyrchiad o'r darlun a welwyd trwy'r flwyddyn yn yr adroddiadau cerdyn sgorio. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwybod yn swyddogol sut ydym wedi perfformio mewn cymhariaeth ag eraill hyd nes caiff y canlyniadau ar gyfer 18/19 eu cyhoeddi gan Data Cymru ym mis Medi. Bydd y darlun cyffredinol yn cael ei drafod yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (fel y nodir yn 2.1.2), i'w drafod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor yn yr hydref.

**2.1.9** Yn wyneb y feddylfryd o welliant cyson sydd wedi gwreiddio yng ngwasanaethau'r Cyngor, ystyrir bod angen rhoi rhywfaint o naratif am y 3 dangosydd sydd wedi tanberfformio fel Ambr neu Goch yn erbyn eu targedau blynyddol am y flwyddyn.

**2.1.9.1** Y ddau ddangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion wnaeth danberfformio am y flwyddyn oedd –

(i) 11) PM20a – COCH – Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi, oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach. Roedd y perfformiad yn yr achos hwn yn 30.87% ar ddiwedd Ch4 yn erbyn targed o 50%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio gyda nifer fechan o achosion ac o'r herwydd, gall perfformiad amrywio'n sylweddol o chwarter i chwarter. Yn Ch4, o ganlyniad i'r ymyrraeth ail-alluogi mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu, bu cynnydd yn y pecyn gofal ar gyfer unigolyn ychwanegol sy'n cael ei gefnogi yn hytrach na phecyn gofal is. Mae hyn yn adlewyrchiad o natur y salwch sydd ganddynt.

Yn ystod 2019/20, byddwn yn adolygu'r gwasanaeth ail-alluogi cyfredol ac yn ystyried dulliau o gasglu data sy'n darparu canlyniadau a rhesymeg mwy manwl ar gyfer ymyraethau sy'n parhau.

(ii) 07) PAM/025 (PM19) – RED - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed. Roedd perfformiad y dangosydd hwn yn 7.78 ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn targed blynyddol o 3.

Cydnabyddir y bu cyfraddau uchel o oedi wrth drosglwyddo gofal (DTOC) yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn yn arbennig. Rhagwelwyd y byddai'r contract Gofal Cartref sy'n seiliedig ar ardaloedd (wedi'i gomisiynu o'r newydd) yn cael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau. Gellid gweld hyn yn y perfformiad yn Ch3 (1.53) lle gwelwyd gwelliant ar y perfformiad yn Ch2 (1.79) a Ch1 (2.30). Fodd bynnag, ni welwyd y gwelliant hwn yn Ch4 lle gwelwyd 2.17 yn ychwanegol dros y cyfnod.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti ail-alluogi i gwrdd â galw sy'n cynyddu er mwyn rhoi sylw i unrhyw bryder mewn perfformiad yn ystod 2019/20. Roedd dadansoddiad pellach o'r ffigyrau DTOC cynyddol yn ystod Ch4 wedi nodi y gallai'r cynnydd fod o ganlyniad i godio cleientiaid yn anghywir, ac rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau proses fwy cadarn o godio data, yn enwedig mewn un ysbyty a oedd yn cyfrif am 89% o'r ffigyrau. Bydd hyfforddiant pellach yn digwydd yn yr ysbyty hon er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu cwblhau yn 2019/20.

**2.1.9.2** Mae un dangosydd yn y <u>Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u> wedi tanberfformio yn ystod Ch3 –

21) PAM/018 – COCH – Canran yr holl geisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu mewn pryd. Roedd y perfformiad cronnus hyd at ddiwedd y flwyddyn yn 81% yn erbyn targed o 90%. Roedd y perfformiad yn Ch3 yn unig yn 74% a dyma yw'r prif reswm pam ei fod nawr o dan y targed.

Y prif resymau am y tanberfformiad dros y flwyddyn oedd oherwydd absenoldeb Uwch Swyddog Cynllunio yn ystod cyfran helaeth o'r flwyddyn, a llwyth gwaith trwm wrth siapio'r system gynllunio newydd tra'n ymdopi â gofynion GDPR hefyd.

Er mwyn gwella'r perfformiad yn 2019/20, byddwn yn parhau i sicrhau bod systemau newydd a fabwysiadwyd yn Ch4 mewn lle i gytuno ar amserlen bendant ar gyfer unrhyw estyniad mewn amser lle bod modd gwneud penderfyniad cynnar ar geisiadau tra bydd ceisiadau diffygiol yn cael eu penderfynu trwy eu gwrthod.

**2.1.10** Mae gweddill y dangosyddion i gyd yn WYRDD neu'n FELYN yn yr adran rheoli perfformiad, sy'n galonogol i'w nodi. Fodd bynnag, mae'n peri pryder fod 53% o'r dangosyddion cymaradwy o Ch3 wedi dirywio yn Ch4, a olygodd bod 3 dangosydd wedi disgyn i statws CAG is.

**2.1.11** *Er mwyn gwella ein perfformiad yn gyson fel cyngor sy'n cyflawni,* ***mae'r UDA yn argymell –***

**2.1.11.1** *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod 2019/20. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio flwyddyn ar ôl blwyddyn i sicrhau bod perfformiad yn gwella yn 2019/20*

***2.1.11.2*** *Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch1 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2019/20.*

***2.1.11.3*** *Adolygu targedau 19/20 i sicrhau eu bod yn heriol ond bod modd eu cyflawni, ac os nad fydd targedau'n cael eu cyrraedd yn y flwyddyn, mai'r disgwyliad lleiaf yw gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.*

**2.1.12** Mae Atodiad B yn dangos yr holl raglen waith y mae'r ddau Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Mae'r materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u tracio'n briodol drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod yn chwarterol.

**2.1.13** Mae 2018/19 wedi gweld y Cyngor yn cyflawni gyda'i raglen trawsnewid. Er enghraifft, rydym wedi (rhestr anghyflawn)–

**2.1.13.1** Cwblhau adeiladu Ysgol Santes Dwynwen;
**2.1.13.2** Agor Hafan Cefni, ein darpariaeth gofal ychwanegol cyntaf;
**2.1.13.3** Ail-dendro y Ddarpariaeth Gofal Cartref ar yr ynys;
**2.1.13.4** Cytuno ar leoliad safle aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr ac wedi cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer;
**2.1.13.5** Diweddaru ein gwefan er mwyn gyrru ein agenda newid sianel ddigidol;
**2.1.13.6** Gwella ein trefniadau Sgriwtini ac wedi derbyn adolygiad cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC);
**2.1.13.7** Cwblhau'r gwaith adeiladu ac wedi gosod yr unedau busnes newydd ym Mhen-Yr-Orsedd, Llangefni

## 2.2 RHEOLI POBL

**2.2.1** Mae rheoli ein pobl yn agwedd hollbwysig o reolaeth gorfforaethol y Cyngor sydd (os caiff ei rheoli'n ddigonol) yn ein galluogi ni i barhau gyda'n nod o wella

darpariaeth ein gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Mae gweithlu da ac iach yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaethau da sy'n gwella.

**2.2.2** Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes sy'n cael ei adrodd yn fisol a'i ddadansoddi er mwyn sicrhau gwelliant. Yn chwarter 4 cafwyd sgôr o 2.91 Diwrnod Gwaith wedi'u Colli (WDL) fesul aelod staff ALlC sy'n welliant ar y sgôr o 3.08 WDL a gafwyd yn Chwarter 4, 2017/18. Y sgôr cronnus ar gyfer y flwyddyn yw 10.34 WDL fesul Aelod o Staff Llawn-amser Cyfwerth (dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan rheoli pobl). Fodd bynnag, mae hyn dros y targed o 9.75WDL fesul ALlC am y flwyddyn ac mae hefyd yn uwch na'r 9.96 WDL fesul ALlC a welwyd yn 2017/18. O ganlyniad, mae ein perfformiad cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu y dylai ein safle cenedlaethol ddisgyn un chwartel i lawr i'r Chwartel Canolrif Isaf o gymharu â chanlyniadau 2017/18. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar o nifer o awdurdodau sydd wedi'u lleoli yn debyg i Ynys Môn yn 2017/18 hefyd yn dangos cynnydd mewn WDL fesul ALlC.

**2.2.3** Er mwyn gwella ein cyfraddau salwch ymhellach yn 2019/20, rydym wedi adnabod targedau gwasanaeth am y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar dueddiadau 2018/19.

**2.2.4** **Mae'r UDA felly'n argymell** –

**2.2.4.1** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**2.2.4.2** Unwaith eto, byddwn yn mabwysiadu targed o 9.75 diwrnod o salwch fesul ALlC ar gyfer 2019/20.

### 2.3 GWASANAETH CWSMER

***2.3.1*** Hyd at ddiwedd Ch4, fe wnaeth defnyddwyr ddefnyddio technoleg AppMôn i gyflwyno 4700 o adroddiadau (ar faterion yn cynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni bas data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Mae hyn dros ddwbl y 2000 o adroddiadau a welwyd yn 17/18. Daeth 84% o'r adroddiadau hyn drwy'r wefan, a gafodd ei hadnewyddu a'i diweddaru yn ystod Ch4.

**2.3.2** Dangosydd newydd ar gyfer eleni yw nifer y defnyddwyr cofrestredig sydd gennym ar AppMôn a Gwefan y Cyngor, sydd wedi cynyddu dros 1500 ers diwedd Ch3 i 8155 o ddefnyddwyr ar ddiwedd Ch4. Mae hyn yn rhywbeth positif a gan fod y wefan newydd wedi'i sefydlu bellach, disgwylir y bydd hynny'n annog mwy o ddefnydd o ffurflenni ar-lein a chyswllt ar-lein a fydd yn gyrru ein newid sianel digidol i alluogi trigolion i dalu a gofyn am wasanaethau ar-lein. Oherwydd hyn disgwylir y bydd y niferoedd sy'n talu dros y we hefyd yn cynyddu ymhellach yn ystod 2019/20.

**2.3.3** Fe gynyddodd nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol unwaith eto yn ystod Ch4 i 29.5k o ddilynwyr. Mae hyn wedi'i rannu rhwng Facebook (13.5k o ddilynwyr), Twitter (15k o ddilynwyr) ac Instagram (1k). Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r

sianelau hyn ond yn cynyddu ymhellach, gan olygu newid felly yn y modd y mae trigolion ac eraill yn cyfathrebu gyda ni fel Cyngor.

**2.3.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, erbyn diwedd y flwyddyn roedd 76 o Gwynion wedi'u derbyn (o gymharu â 71 yn 17/18). Mae 74 o'r cwynion oedd angen ymateb wedi derbyn ymateb ac o'r cwynion hynny cafodd 16 eu cadarnhau'n llawn (Tai [4], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [4], Adnoddau [4], Dysgu [2], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], a Thrawsnewid [1]), cafodd 7 eu cadarnhau'n rhannol (Adnoddau [2], Adnoddau + Trawsnewid [1], Dysgu [1], Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1] a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd + Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1]) tra bod y 49 cwyn yn weddill wedi eu gwrthod.

**2.3.5** Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion a gafodd eu cadarnhau/cadarnhau'n rhannol eleni yn cynnwys:

- Adolygu gweinyddiaeth ceisiadau am fudd-dal
- Roedd gofyn cael gwell eglurhad o brosesau cynllunio
- Adolygu gweithdrefnau mewnol wrth ymdrin â cyflwyno ffurflen LEP1; ac
- Atgoffwyd gwasanaethau o'r gofyniad i ymateb yn llawn ac yn brydlon i ohebiaeth

**2.3.6** Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol roedd 8 cwyn Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion [6], Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [2]) a 44 o gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [30], Gwasanaethau Oedolion [14]) yn ystod 2018/19. O'r cwynion hyn, ymatebwyd i gyfanswm o 57% (Coch ar y cerdyn sgorio) o fewn yr amserlen gydag 19 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [13] a'r Gwasanaethau Oedolion [6]). Er i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fethu anfon ymatebion ysgrifenedig mewn pryd i 13 o'r 30 o gwynion Cam 1, mewn 24 o'r 30 (80%) cynhaliwyd trafodaeth gyda'r achwynydd o fewn yr amserlen. Dylid nodi bod 100% o'r cwynion a welwyd yn Ch4 wedi derbyn ymateb mewn pryd.

**2.3.7** Roedd perfformiad o ran % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen yn 81% (Gwyrdd ar y cerdyn sgorio) ar ddiwedd 2018/19 o gymharu â 78% ar ddiwedd 2017/18. Mae hyn yn galonogol gan fod y Cyngor wedi delio â 1052 o geisiadau, neu 7532 o gwestiynau, yn ystod 2018/19, sy'n uwch na'r 919 a welwyd yn 2017/18.

***2.3.8 Mae'r UDA felly'n argymell –***

***2.3.8.1*** *Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.*

***2.3.8.2*** *Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.*

## 2.4 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.4.1** Mae gorwariant o £633k ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn well na'r disgwyliad a'r adroddiadau a gafwyd drwy'r flwyddyn. Roedd gorwariant o £2.287m yng nghyllidebau'r gwasanaethau ond mae'r tanwariant o £1.654m mewn perthynas â chyllid corfforaethol wedi gostwng y gorwariant cyffredinol. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau yn debyg i 2017/18 (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion hefyd dan bwysau oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau. Gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth gyfyngu eu gwariant i bethau hanfodol yn unig ac maent wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais hwnnw yn ystod y flwyddyn. Wrth symud ymlaen, ni fydd modd cynnal lefel y tanwariant ar gyllid corfforaethol ac o'r herwydd mae'n bwysig rhoi sylw i'r materion sydd ynghlwm wrth gyllidebau sy'n seiliedig ar y galw.

**2.4.2** Adroddiad ar yr alldro dros dro yw hwn a gall newid wrth i wybodaeth newydd gael ei rhyddhau rhwng rŵan ac adrodd ar y Datganiad Cyfrifon terfynol ym mis Medi

**2.4.3** Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 4' a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 17 Mehefin.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**3.1.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 4. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod 2019/20.

**3.1.2** Cynnal gweithdy gyda'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystod Ch1 i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys ar gerdyn sgorio 2019/20.

**3.1.3** Adolygu targedau 19/20 i sicrhau eu bod yn heriol ond bod modd eu cyflawni, ac os nad fydd targedau'n cael eu cyrraedd yn y flwyddyn, mai'r disgwyliad lleiaf yw gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**3.1.4** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal a/neu gwella presenoldeb yn y gwaith gyda'r chyfrifoldeb yn eistedd gyda rheolwyr gwasanaeth gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol a staff AD. Dylid defnyddio paneli herio hefyd yn ôl yr angen.

**3.1.5** Unwaith eto, mabwysiadu targed corfforaethol o 9.75 diwrnod o salwch fesul aelod o staff llawn-amser cyfwerth ar gyfer 2019/20.

**3.1.6** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan

o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.

**3.1.7** Bod gweithdrefn newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei wreiddio yn y gweithgareddau dydd i ddydd er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn yr amserlenni.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2018/19

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Tuedd Bl i Fl / Yr on Yr Trend | Chwartel 17/18 Quartile | *Chwartel 18/19 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) PAM/029 (PM33) - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 9.52% | 11% | 9% | ↓ | - | - |
| 02) PAM/028 (PM24) - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 86.17% | 90% | 67.57% | ↑ | - | - |
| 03) SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 81% | 83% | 63.32% | ↑ | - | - |
| 04) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 241 | 320 | 326.5 | ↑ | - | - |
| 05) SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Melyn / Yellow | ↑ | 16.87% | 15% | - | - | - | - |
| 06) SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 98% | 94% | - | - | - | - |
| 07) PAM/25 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Coch / Red | ↓ | 7.78 | 3 | 6.58 | ↓ | - | - |
| 08) SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 93.30% | 93% | 96% | ↓ | - | - |
| 09) SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↓ | 17.35 | 19 | 17.44 | → | - | - |
| 10) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 90.91% | 90% | 93.25% | ↓ | - | - |
| 11) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Coch / Red | ↓ | 30.87% | 50% | 59.26% | ↓ | - | - |
| 12) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 62.84% | 62% | 62.65% | → | - | - |
| 13) PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (Tymhorol) | Melyn / Yellow | ↓ | 92.91% | 93.30% | 93.3%** | ↓ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper** |
| 14) PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (Tymhorol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.98% | 93.90% | 93.9%** | ↓ | Canolrif Isaf / Lower Median | Uchaf / Upper** |
| 15) PAM/010 (STS/005b) - Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↓ | 95.29% | 94% | 93% | ↑ | Canolrif Isaf / Lower Median | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 16) PAM/030 (WMT/009b) - Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↑ | 69.86% | 72% | 72.2% | ↓ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 17) PAM/035 - Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↓ | 0.2 | 1 | - | - | - | - |
| 18) PAM/043 - Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Melyn / Yellow | → | 240kg | 210kg | 236kg | ↓ | - | - |
| 19) PAM/017 (LCS/002b) - Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Gwyrdd / Green | ↑ | 553k | 515k | 508k | ↑ | Canolrif Isaf / Lower Median | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 20) PAM/023 (PPN/009) - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 98% | → | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 21) PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | ↓ | 80% | 90% | 86% | ↓ | Isaf / Lower | Isaf / Lower |
| 22) PAM/019 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 74% | 65% | 47% | ↑ | Isaf / Lower | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 23) PAM/041 - Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 67% | 50% | - | - | - | - |
| 24) PAM/042 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 85% | 80% | - | - | - | - |
| 25) PAM/012 - Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Melyn / Yellow | ↓ | 52.93% | 55% | 65.20% | - | Canolrif Uchaf / Upper Median | Isaf / Lower |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 78 | 75 | 75 | ↑ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | → | 9 | 4 | 4 | ↑ | - | - |
| 28) PAM/015 (PSR/002) - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↑ | 161.9 | 175 | 177 | ↑ | Uchaf / Upper | Uchaf / Upper |
| 29) PAM/037 - Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Melyn / Yellow | ↓ | 13.63 | 12 | - | - | - | - |
| 30) PAM/038 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | - | - | - | - |
| 31) PAM/009 - Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) [Blynyddol] | - | - | 1.1% | - | 4.20% | ↑ | Isaf / Lower | Uchaf / Upper** |
| 32) PAM/032 - Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 [Blynyddol] | - | - | 349.1 | - | 335.9 | ↑ | Isaf / Lower | Canolrif Uchaf / Upper Median** |
| 33) PAM/033 - Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen [Blynyddol] | - | - | 88.3% | - | 72.6% | ↑ | - | - |
| 34) PAM/034 - Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) [Blynyddol] | - | - | 65% | - | 63.7% | ↑ | - | - |
| 35) PAM/040 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 36) PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 97% | 92% | 92% | ↑ | - | - |
| 37) PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 94% | 90% | 90% | ↑ | - | - |
| 38) PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 89% | 83% | 83% | ↑ | - | - |
| 39) PAM/020 (THS/012a) - Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 3% | 3% | 3.20% | ↑ | Canolrif Uchaf / Upper Median | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 40) PAM/021 (THS/012b) - Canran y prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 3.80% | 5% | 4.40% | ↑ | Canolrif Uchaf / Upper Median | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 41) PAM/020 (THS/012c) - Canran y prif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | Gwyrdd / Green | - | 8.60% | 10% | 8.90% | ↑ | Canolrif Isaf / Lower Median | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 42) PAM/039 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag [Blynyddol] | - | - | 1.30% | - | - | - | - | - |

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2018/19

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 76 | 71 | 71 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | ↓ | 8 | - | 9 | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | ↑ | 27 | - | 28 | 25 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 93% | 80% | 92% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↑ | 57% | 80% | - | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | ↑ | 44 | - | 51 | 54 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | ↑ | 62 | - | 112 | 191 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | ↓ | 513 | - | 753 | 566 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Gwyrdd / Green | ↑ | 81% | 80% | 78% | 77% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | ↓ | 1052 | - | 919 | 1037 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 8155 | | | |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 4680 | | 2k | 1k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 11.2k | | 11k | |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 5.2k | | 5k | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | → | 29.5k | 25k | 25k | 21k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 798k | | 820k | 715k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2243 | - | 2252 | 2310 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1252 | - | 1244 | 1303 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | Coch / Red | ↓ | 10.34 | 9.75 | 9.96 | 11.68 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 4.68 | - | 4.63 | 11.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 5.66 | - | 5.32 | 6.79 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 12.21 | 9.5 | 10.39 | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.97 | | 4.85 | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 7.24 | - | 5.55 | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Melyn / Yellow | ↓ | 9.57 | 9.5 | 9.67 | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.26 | - | 5.32 | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.31 | - | 4.35 | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | → | 79% | 80% | 73% | 84% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | → | 88% | 95% | 85% | - |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Coch / Red | ↓ | 58% | 80% | 69% | - |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | → | 11% | - | 11% | - |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | Gwyrdd / Green | ↓ | 84% | 80% | 90.50% | - |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | - | 98% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | ↑ | 10 | - | 12 | 26 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol (Llinellau Cyllideb Rheoladwy) | Coch / Red | ↑ | £130,566,193 | £130,897,516 | 0.25% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn (Refeniw) | Coch / Red | ↑ | £130,899,873 | £131,533,355 | 0.48% | - | - |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn (Cyfalaf) | | | £46,520,951 | £21,649,188 | -53.46% | - | - |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↓ | £2,521,500 | £2,063,500 | -18.16% | - | - |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£11,752,829 | -£13,488,420 | 14.77% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | | | £5,783,000 | £15,563,536 | 169.13% | - | - |
| 07) Chost benthyca | | | £4,494,993 | £4,035,324 | -10.23% | - | - |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | | ↓ | - | 90.87% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 99.10% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | - | 98.80% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 97.60% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | | ↓ | - | 100.23% | - | - | - |
| ddiwethaf) | | ↑ | - | 100.57% | - | - | - |

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynnwys yn yr adroddiad chwarterol ar gyfer monitro'r cerdyn sgorio, a gaiff ei gyflwyno o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad cryno lefel-uchel ynglŷn â statws y gwaith sy'n berthnasol ac mae'n adrodd i'r -

- ***Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau; a'r***
- ***Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol***

Mae'r graddfeydd CAG allweddol ar gyfer y ddogfen fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi'i gwblhau | Mae'r prosiect wedi'i gwblhau |
| Ar Drywydd | Y prosiect yn datblygu fel sy'n ddisgwyliedig ac mae ar drywydd |
| Ar ei hôl hi | Mae angen penderfyniadau allweddol / cefnogaeth ar y prosiect |
| Hwyr | Mae'r prosiect yn hwyr a thu ôl i amserlenni disgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw'r prosiect wedi cychwyn hyd yma |

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen/Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **CAMG a Diweddariad cryno** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | **Ysgol Santes Dwynwen** yn Niwbwrch wedi agor ar 29 Ebrill 2019.<br><br>Agoriad swyddogol ar ddiwedd yr haf / dechrau Medi 2019. |
| | **Ardal Llangefni** | **Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas**<br>Y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddiddymu ac mae gofyn i Swyddogion ystyried y posibiliadau ar gyfer yr ardal o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd (011/2018)<br><br>**Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddiddymu ac mae gofyn i Swyddogion ystyried y posibiliadau ar gyfer yr ardal o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd (011/2018) |
| | **Seiriol a'r de-ddwyrain** | Y penderfyniad gwreiddiol wedi'i ddiddymu ac mae gofyn i Swyddogion ystyried y posibiliadau ar gyfer yr ardal o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd (011/2018) |
| | **Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd yr ardal.** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu o 05/11/18 – 14/12/18. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddadansoddi'r canlyniadau a datblygu cynnig i ymgynghori arno. |
| | **Ôl-16** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu o 19/11/18 – 16/12/18. Mae gwaith wedi'i gwblhau ar ddadansoddi'r canlyniadau a rhoddwyd rhagor o amser i ymchwilio i fodelau i'r dyfodol. |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion -** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Y prosiect wedi'i gwblhau ac wrthi'n paratoi Adroddiad Cau Prosiect i'w gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen Gofal Cymdeithasol Oedolion (21/5). |
| | **Gofal Ychwanegol De yr Ynys** | Yn dilyn yr argymhelliad i ddiddymu'r penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Biwmares, mae angen gwaith pellach ar archwilio opsiynau er mwyn gweld beth allwn ei gyflawni. |
| | **Tai gyda Chefnogaeth Fewnol** | Nod newydd y prosiect yw cadw'r gwasanaeth yn fewnol yn y Cyngor ond ei ailfodelu er mwyn cyflawni arbedion ariannol.<br><br>Paratoi Adroddiad Cau Prosiect a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gofal Oedolion ym mis Mai 2019. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ail-dendro Gwasanaethau Gofal Cartref** | Prosiect wedi'i gwblhau. Yn cychwyn trefniadau monitro newydd mewn partneriaeth ag Iechyd.<br><br>Prosiect wedi'i Gau – cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Gofal Oedolion ym mis Chwefror 2019. |
| | **Tai gyda Chefnogaeth (Allanol)** | Nod y prosiect yw ailfodelu ac ail-ddylunio'r gwasanaethau gan ymgynghori'n agos â gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl.<br><br>Trafodaethau gyda darparwyr ar y gweill |
| | **Gwasanaethau Gofal Dydd** | Datblygu'r weledigaeth ar gyfer cyfleoedd dydd a'r amserlen weithredu.<br><br>Yn ymgysylltu ynghylch cyfleoedd dydd ar hyn o bryd. Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini a Pwyllgor Gwaith yn Chwarter 3. |
| **Trawsnewid Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Ieuenctid, Amgueddfeydd, Diwylliant a Neuadd y Farchnad** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Melin Llynnon a'r Tai Crynion – rhoddwyd trwydded i ddyn lleol / Michelin Star, Richard Holt.<br><br>Llys a Charchar Biwmares – Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo'r asedau i Gyngor Tref Biwmares, yn aros i'r cytundeb gael ei brosesu. |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Prosiect wedi'i gwblhau.<br><br>Ffrydiau gwaith cysylltiedig yn cael eu rheoli gan y Bwrdd Rhaglen Llyfrgelloedd a Threftadaeth |
| | **Neuadd y Farchnad, Caergybi** | Bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2019. Mae problemau gyda gwaith Cam 2 wedi achosi oedi i'r prosiect – gwaith cam 2 dal yn mynd yn ei flaen. |
| **Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr** | | Safle Star – Mae'r prosiect ar ei hôl hi. Tendr mewn lle erbyn Ch1 yn dechrau Ch3, rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau ym mis Medi 2019. |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler DPA 16 + 17 ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer ystadegau Ch1 |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Biwmares – bydd contractwyr newydd ar y safle ddiwedd mis Mai 2019.<br><br>Nant y Felin, Pentraeth – mae'r gwaith wedi'i ohirio, i ddechrau tuag at ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Llanfairpwll – Bwriedir cyflwyno'r achos busnes amlinellol i LlC ddiwedd mis Ebrill 2019. Unwaith caiff ei dderbyn – byddwn yn trefnu sesiynau galw heibio i'r trigolion.<br><br>Y Fali – yr achos busnes amlinellol wedi'i gyflwyno i LlC, yn aros am ddiweddariad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dwyran – Cynllun gweithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau, mae'r prosiect ar ei hôl hi a disgwylir y caiff ei gwblhau erbyn canol Gorffennaf 2019.<br><br>Llangefni – Cynllun gweithio ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yn parhau, disgwylir y caiff ei gwblhau ddiwedd Mai 2019 |
| | | Bodffordd – Wedi'i gwblhau |
| **Strategaeth Moderneiddio Hamdden** | | Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gwblhau a'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi. |

| **Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen/Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **CAMG a Diweddariad cryno** |
| **Cynllun Adnoddau – Northgate** | | Caewyd y prosiect ar 31.03.19 ac yn cario mlaen fel busnes fel arfer.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Cau Prosiect i'r Bwrdd ym mis Mai 2019. |
| **Trawsnewid Prosesau Busnes** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb yn Wyneb** | Mae'r holl gyfrifiaduron PC yn cael eu huwchraddio ar hyn o bryd yn y llyfrgelloedd ynghyd â'r dolenni meddalwedd i alluogi argraffu a sganio.<br><br>Prosiect ar ei hôl hi – dechreuwyd prosiect peilot ar ôl y Pasg yn Amlwch a Phorthaethwy am 4 mis ac wedyn cafodd y dyddiad ei adolygu, a chaiff ei gyflwyno i'r Bwrdd gydag argymhellion ynghylch ei gyflawni yn y dyfodol. |
| | **Cyswllt Ffôn a Newid Dulliau Cyfathrebu** | (OEDI AM RŴAN) mae pob Canolfan Gyswllt wedi mynd yn fyw'n llwyddiannus heb unrhyw amhariad i'r cyhoedd.<br><br>Yn y gwasanaethau hynny sydd wedi mynd yn fyw mae tystiolaeth o welliant yn y nifer o alwadau sy'n cael eu colli (gostyngiad o hyd at 80% mewn galwadau lle mae'r person yn rhoi'r ffôn i lawr.) |
| | **CRM** | Integreiddio Teleffoni – mae'r uwchraddiad ShoreTel yn newid profiad y defnyddiwr yn sylweddol.<br><br>Rheoli Gwastraff – Wedi datblygu'r Fanyleb. Yn aros am ddyfynbris. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Integreiddio Bathodynnau Glas – Hyn yn dod yn ei flaen yn dda. Ffurflenni wedi'u creu a'u hintegreiddio. Nid oes dolenni o wefan y Cyngor i'r un Genedlaethol eto oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg. |
| **Modelau Darparu Amgen** | | Mae gwaith ar MDA yn mynd yn ei flaen a byddwn yn parhau i archwilio'r opsiynau newydd sydd ar gael yn gyson.<br>Contract Tacsis Ysgol – y contract yn rhedeg.<br>Torri Gwair Ysgolion – y contract yn rhedeg.<br>Ail-dendro caffi Oriel Môn – y contract yn rhedeg.<br>Talu am barcio mewn rhai meysydd parcio ar yr ynys – yn parhau |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Y cynllun ar gyfer 2018/19 wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen ac yn cael ei weithredu. |
| **Gweithredu'r Strategaeth TGCh** | | Aeth y wefan yn fyw ym mis Chwefror 2019.<br>Mae Strategaeth Ddigidol 2017-2021 wedi cael ei diweddaru (Fersiwn 2.0).<br>Gwaith yn parhau gyda'r CRM o dan gyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Prosesau Busnes. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Rhoddwyd y rhaglen mewn lle 18 mis yn ôl ac mae wedi'i chwblhau bellach a'i chau, ac mae rhaglen ddatblygu newydd nawr yn ei lle. |
| **Strategaeth Gyfathrebu** | | Y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo'r strategaeth, caiff y ddogfen ei chyhoeddi ar Monitor. Cynllun gwaith 19/20 wrthi'n cael ei ddatblygu. |
| **Contract Casglu a Glanhau Gwastraff** | | Wedi dechrau'r broses o ail-dendro ar gyfer ein contract Casglu a Glanhau Gwastraff. |
| **Contract Prydau Ysgol** | | Paratoi ar gyfer a thendro y contract Prydau ysgol gan sicrhau bwydlen iach o fwyd lleol ar gyfer 2020-2025. |

**ATODIAD C**

## Alldro Refeniw Rhagamcanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 – Chwarter 4

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 43,216 | 43,216 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,411 | 4,760 | 349 | 220 | 327 | 589 |
| Diwylliant | 1,332 | 1,207 | (126) | (2) | (124) | (100) |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 24,921 | 26,094 | 1,173 | (5) | 1,178 | 1,035 |
| | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,729 | 10,565 | 1,837 | 7 | 1,830 | 2,009 |
| | | | | | | |
| **Tai** | 1,091 | 802 | (289) | 15 | (304) | (45) |
| | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,385 | 6,101 | (284) | 38 | (322) | (107) |
| Eiddo | 1,009 | 1,136 | 128 | 92 | 35 | 36 |
| Gwastraff | 7,490 | 7,453 | (37) | 291 | (328) | (257) |
| | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,750 | 1,679 | (71) | 36 | (107) | (119) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,070 | 1,967 | (103) | 18 | (121) | (50) |
| | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,251 | 1,195 | (56) | (2) | (54) | (15) |
| TGCh | 2,354 | 2,483 | 128 | (7) | 135 | 112 |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| Trawsnewid Corfforaethol | 826 | 644 | (182) | 0 | (183) | (155) |
| **Adnoddau** | 2,840 | 2,886 | 46 | 85 | (39) | (34) |
| **Busnes y Cyngor** | 1,464 | 1,411 | (53) | 0 | (53) | (4) |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,290 | 3,115 | (175) | 6 | (181) | (138) |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 657 | 659 | 3 | 0 | 2 | 15 |
| **Effaith Ragamcanedig y Costau na fedrir eu rheoli** | | | | | | 200 |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 115,086 | 117,373 | 2,287 | 596 | 1,692 | 2,972 |
| Ardollau | 3,361 | 3,361 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,541 | 6,356 | (1,185) | 0 | (1,185) | (1,056) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (93) |
| Cyfraniad y Gwasanaethau Cefnogaeth i'r CRT | (693) | (845) | (152) | (152) | 0 | 0 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,606 | 5,558 | (48) | 127 | (175) | (63) |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 15,815 | 14,429 | (1,385) | (25) | (1,360) | (1,210) |
| **Cyfanswm 2018/19** | **130,900** | **131,802** | **902** | **570** | **331** | **1,762** |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Alldro Rhagamcanedig | Cyfanswm Gwahaniaeth Alldro Rhagamcanedig | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Eithriadau) | Rhagamcan y Gwahaniaeth na ellir ei Reoli (Dim Eithriadau) | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (22,574) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | (35,357) | (269) | 191 | (460) | 45 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0 | (218) |
| Grant Cymorth Refeniw | (73,238) | (73,728) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2018/19** | **(130,900)** | **(131,168)** | **(269)** | **191** | **(460)** | **(173)** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **633** | **633** | **761** | **(128)** | **1,589** |

F7 [16/10/17]



# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 03.06.19 |
| **Pwnc:** | Monitro Chwarterol y Gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adrodd ar gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elin Williams, Rheolwr Trawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau |

### 1 – Argymhelliad/ion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

1.1. Gadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

### 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae cysylltiadau clir rhwng Cynllun Datblygu Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Chynllun Ynys Môn 2017/2022. Yr amcanion yw:

1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.
2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.
3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

### 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

| |
|---|
| **3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| **1.** A yw'r Pwyllgor yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir**

Fel Aelodau Etholedig, rydych yn llwyr ymwybodol o gefndir y Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r ffaith ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Yn dilyn ail-arolwg o'r gwasanaeth yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), mae'r gwasanaeth bellach yn dilyn Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd sy'n cymryd lle'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn gynllun 3 blynedd ac mae'n cynnwys y 5 thema ganlynol:

1. Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol;
2. Asesiadau, cynllunio gofal, ymyraethau a phenderfyniadau amserol o ansawdd uchel i amddiffyn, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil o ansawdd;
3. Fframwaith perfformiad a sicrwydd ansawdd sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol;
4. Ymyrraeth gwaith cymdeithasol priodol 'ar yr adeg iawn' er mwyn gwella bywyd teuluoedd ar adegau o drawma;
5. Gwella deilliannau i blant mewn gofal.


Mae'r gwasanaeth yn frwdfrydig ynghylch ei Gynllun Datblygu Gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Ers yr adroddiad diwethaf, mae gwaith y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi canolbwyntio ar:

**1. <u>Perfformiad</u>**

Gellir gweld gwelliant amlwg yn y Dangosyddion Perfformiad (DP) ar gyfer Chwarter 4 o fewn y gwasanaeth. Mae perfformiad wedi parhau i wella yn y rhan fwyaf o feysydd sydd yn cael eu mesur ac mae hynny'n arwydd o'r newidiadau cadarnhaol a datblygiadau sydd yn digwydd o fewn y gwasanaeth cyfan.


1.1 Ymweliadau Amddiffyn Plant Statudol




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer yr Ymweliadau Amddiffyn Plant Statudol a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen.

Chwarter 4 yw chwarter gorau'r flwyddyn, gyda sgôr o **96.69%** (methwyd **17** allan o **514**). Methwyd **185** o ymweliadau yn ystod y flwyddyn, sef **660** yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn welliant sylweddol. Y sgôr diwedd blwyddyn yw **89.80%**.


1.2 Grwpiau Craidd Amddiffyn Plant




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y Grwpiau Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen.

Mae'r DP hwn wedi parhau i wella ers mis Awst a gwelwyd gwelliant sylweddol yn ystod y ddau fis diwethaf, gyda **99%** yn cael ei gyflawni ym mis Chwefror. Mae hyn yn galonogol iawn ac mae'r gwasanaeth yn anelu i gyflawni **100%** wrth symud ymlaen.


1.3 Plant sydd wedi Symud Ysgol o Ganlyniad i Newid mewn Lleoliad




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud ysgol am resymau heblaw trosglwyddo.

Y llynedd bu'n rhaid i bron i **draean** o blant oedran ysgol symud ysgol am resymau heblaw trosglwyddo, gyda **19** ym mis Medi yn unig, y lefel uchaf mewn 5 mlynedd. Yn 2016/17 a 2015/16 y ffigwr oedd **17%**, felly mae ffigwr eleni **(6.50%)** yn sylweddol is ac yn is na'r targed.


1.4 Plant Mewn Gofal sydd wedi Dychwelyd Adref



Mae’r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y plant sydd wedi dychwelyd adref.

Bu i nifer uchel o blant ddychwelyd adref yn ystod chwarter 4 ac mae hyn yn welliant ar ffigwr y llynedd, gyda **9.73%** yn dychwelyd adref eleni o gymharu â **9.09%** y llynedd.


1.5 Plant sy’n cael eu Hailgofrestru o fewn 12 Mis




Mae’r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer y plant sydd wedi ailgofrestru o fewn 12 mis.

Mae gwelliant o gymharu ag y llynedd. Eleni roedd **122** o gofrestriadau yn y gwasanaeth ac o’r 122 hynny, dim ond **3** oedd wedi ailgofrestru o fewn 12 mis, ac roedd y 3 phlentyn yn perthyn i’r un teulu. Y sgôr terfynol ar gyfer y flwyddyn hon oedd **2.46%**.

1.6 Adolygiadau Amddiffyn Plant a Phlant sy’n Derbyn Gofal




Mae'r Dangosydd Perfformiad hwn yn mesur nifer yr adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen.

Bu perfformiad mewn perthynas ag adolygiadau yn dda eleni, er gwaethaf y sgôr isel yn chwarter 1 ar gyfer adolygiadau amddiffyn plant. Mae gweddill y flwyddyn wedi bod yn gyson iawn, a chafwyd uchafbwynt yn chwarter 3 drwy gyflawni **100%** o adolygiadau amddiffyn plant ac yn chwarter 4, drwy gyflawni **100%** o adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae hyn yn galonogol iawn.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i geisio cyflawni'r canlyniadau gorau posib yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad.

**2. <u>Cwynion a Sylwadau Cadarnhaol</u>**

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r cwynion a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod Chwarter 4:

- Bu gostyngiad yn nifer y cwynion Cam 1 a gofnodwyd (**3** yn ystod y chwarter).
- Cofnodwyd **10** o bryderon / sylwadau negyddol yn ystod y chwarter.
- Cofnodwyd **12** canmoliaeth yn ystod y chwarter. Mae'r **7** canmoliaeth gan deuluoedd yn dangos eu gwerthfawrogiad am y budd y mae teuluoedd wedi'i gael o'r gwasanaeth a sut mae gweithwyr wedi datblygu perthnasau cadarnhaol gyda phlant. Mae'r **5** canmoliaeth gan weithwyr proffesiynol yn amlygu barn gadarnhaol am ymwneud gweithwyr cymdeithasol ag achosion lle bu achos llys, ac yn gwerthfawrogi sut yr oedd cynllun amddiffyn plant clir ac o safon uchel wedi helpu rhieni i wneud newidiadau.

Mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o nifer y cwynion a'r sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd am y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19:

Roedd **30** o gwynion Cam 1, **2** gŵyn Cam 2 a **0** ymchwiliad gan yr Ombwdsmon.

Mae'r **68** canmoliaeth a dderbyniwyd yn dangos gwerthfawrogiad o:

- y ffordd y mae staff yn cyfathrebu ac yn gwrando;
- y gefnogaeth a dderbyniwyd a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud i deuluoedd, yn cynnwys cynyddu hyder;
- staff yn ymddwyn mewn modd proffesiynol, gwybodus ac effeithiol;
- perthnasau cadarnhaol a ffurfiwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth, yn cynnwys plant.

Mae'n gadarnhaol gweld bod nifer y cwynion Cam 1 wedi gostwng yn ystod Chwarter 4 a bod nifer o sylwadau cadarnhaol a chanmoliaeth.

**3. <u>Polisïau Ôl-ofal</u>**

Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Ôl-ofal wedi cynhyrchu polisïau newydd mewn perthynas â phobl ifanc sydd wedi gadael y gwasanaeth. Mae'r tri polisi canlynol wedi eu cymeradwyo ac ar waith:

- Protocol ar y cyd ar gyfer Pobl Ifanc a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal Ynys Môn rhwng y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Polisi Gadael Gofal;
- Canllawiau i Bobl Ifanc i Gymorth a Chefnogaeth Ariannol.

Mae'r polisïau yn darparu arweiniad ynglŷn â pa gymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd yn gadael gofal, neu sydd wedi gadael gofal, yn ymwneud ag arian a budd-daliadau; tai a llety; rolau a chyfrifoldebau; addysg, cyflogaeth a hyfforddiant; iechyd a llesiant a chadw mewn cysylltiad â'r gwasanaeth.

**4. Polisi Arian Poced, Cyfrif Banc a Chynilion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**

Lluniwyd polisi newydd ynglŷn â materion ariannol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn dilyn ymgynghori â Gofalwyr Maeth Môn, Darparwyr Annibynnol ac Asiantaethau Maethu awdurdodau lleol eraill. Mae'r polisi yn darparu cyfeiriad clir ynglŷn â disgwyliadau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag arian poced, cyfrifon banc, cynilion ac *ISA* Plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**5. Pecyn Maethu**

Erbyn hyn mae'r Cyngor yn cynnig pecyn mwy cystadleuol o safbwynt lwfansau a chymhellion er mwyn helpu i recriwtio mwy o Ofalwyr Maeth i'r Cyngor.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cynnydd o 10% yn y Lwfans Maethu;
- Gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor;
- Cerdyn Aelodaeth Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn yn rhad ac am ddim;
- Tocyn parcio rhad ac am ddim ar gyfer meysydd parcio'r Cyngor.

Ers cyhoeddi'r pecyn maethu newydd ym mis Ionawr 2019, derbyniwyd **15** o ymholiadau gan bobl sydd wedi dangos diddordeb mewn bod yn Ofalwyr Maeth i'r Cyngor; mae **12** wedi cychwyn ar y broses asesu, ac mae **3** wedi cael eu cymeradwyo fel Gofalwyr Maeth gan y Panel Maethu. Mae ymgyrch farchnata barhaus mewn lle i barhau i recriwtio Gofalwyr Maeth er mwyn sicrhau bod digon o leoliadau maeth ar gael i blant lleol.

**6. Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yn y cyfarfod o'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion a gynhaliwyd ar 22 Mai 2019 a'r cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019, penderfynwyd sefydlu Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaethau Oedolion gael yr un lefel o sgriwtini â'r hyn y mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi ei gael yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd hefyd yn fodd i Aelodau Etholedig gael gwybodaeth fanylach am y prosesau a'r heriau yn y Gwasanaethau Oedolion. Argymhellir bod y panel newydd yn cychwyn ar ei waith ar unwaith. O'r herwydd, y cyfarfod nesaf fydd y cyfarfod o'r panel newydd sef y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a bwriedir ei gynnal ar 27 Mehefin 2019.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn parhau i graffu ar yr holl gontractau ac ar adegau bydd yn herio costau, ac yn arbennig costau'r ddarpariaeth plant mewn gofal. Gwneir ymdrech hefyd i leihau gwariant ar draws y gwasanaeth ac, yn ei dro, mae wedi lleihau'r gorwariant a ragwelwyd hyd yma. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **3 Mehefin 2019** |
| **Pwnc:** | **Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad cynnydd ar waith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/ion**

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant o safbwynt cyflawni ei raglen waith
- Bod y Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd wedi cael ei fabwysiadu erbyn hyn, a'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol wedi cael ei gau
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod yr Ymweliadau Laming, fel modd o gryfhau ymhellach ar atebolrwydd a gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel
- Y rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, gyda llawer ohoni'n cael ei darparu'n fewnol

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Panel o gynllun datblygu gwasanaeth y gwasanaethau plant yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor yn ymateb yn gadarn i argymhellion dau adroddiad AGC ar y gwasanaethau plant[1] a bod camau mewn lle i liniaru unrhyw risgiau.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

[1] Dyddiedig Mawrth, 2018 a Rhagfyr, 2018

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Ar gais y Panel:<br><br>1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaethau'r ffrydiau gwaith a gynhwysir ym mlaen raglen waith y Panel?<br>2. A yw'r camau a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol bod sgriwtini wedi datblygu yn ystod y 18 mis diwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Gwella Gwasanaethau Plant**.

**Trefniadau Llywodraethiant y Panel**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel a bwriedir cynnal cyfarfodydd misol o'r Panel[2] o leiaf tan ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol (Mawrth, 2020). Sefydlwyd proses ar gyfer derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan y Cyng. Richard Griffiths, fel cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel.

**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**

2.1 Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant wedi bod yn cyfarfod yn fisol ers mis Gorffennaf, 2017 (ac wedi cyfarfod 21 o weithiau erbyn hyn). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel yn ystod y cyfnod **Mawrth, 2019 – Ebrill, 2019:**

- **Cynllun Datblygu Gwasanaeth (CDG)** – rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gyflwyniad manwl yng nghyfarfod Ebrill[3] y Panel ar gynnwys y Cynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd newydd. Erbyn hyn, mae'r CDG wedi cymryd lle'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol ac mae'r ddau faes blaenoriaeth na chafodd eu gweithredu'n llawn wedi cael eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu newydd.

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 4 Medi a 13 Medi, 2017
[3] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2019

Mae’r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn cynnwys 5 o themâu ac mae’r 5ed thema yn darparu fframwaith ar gyfer rhoi mwy o sylw i ganlyniadau plant / pobl ifanc:

Themâu’r Cynllun Datblygu

- Gweithlu hyderus a medrus i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol
- Asesiadau, cynllunio gofal, ymyraethau a phenderfyniadau amserol o ansawdd uchel i amddiffyn, cefnogi a rheoli’r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a theclynnau ymchwil o ansawdd
- Fframwaith perfformiad a sicrwydd ansawdd sy’n cefnogi’r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol
- Ymyrraeth gwaith cymdeithasol priodol “ar yr adeg iawn” er mwyn gwella bywyd teuluoedd ar adegau o drawma
- Gwella deilliannau i blant mewn gofal

Mae’r Cynllun Datblygu newydd yn cynnwys 14 o feysydd datblygu → 12 maes newydd a 2 a drosglwyddwyd o’r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol. Bydd y CDG mewn lle am gyfnod o 3 blynedd o Ebrill 2019 i Fawrth 2022, ac yn ymgorffori’r meysydd blaenoriaeth canlynol:

i. 2 gam gweithredu â statws Ambr o’r Cynllun Gwella Gwasanaeth (Gwella ansawdd ymarfer a fframwaith perfformiad a sicrhau ansawdd)
ii. Meysydd datblygu yn dilyn ail-arolygiad y Gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru ddiwedd 2018
iii. Blaenoriaethau lleol – sut mae lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed gan y Gwasanaethau Plant.

Caniataodd trafodaethau’r Panel i Aelodau ddod i farn am i ba raddau y mae’r Cynllun Datblygu arfaethedig yn ddigon cadarn i gymryd lle’r Cynllun Gwella Gwasanaeth. Hefyd, a yw 5 thema’r Cynllun yn ddigon cadarn fel fframwaith a man cychwyn.

- **Ymweliadau Laming** – Bydd Aelodau’n ymwybodol bod proses adrodd gadarn wedi’i sefydlu ar gyfer adrodd ar Ymweliadau Laming, gyda’r nod o ddod â’r Panel yn agosach at achosion, creu’r amodau cywir i Aelodau werthfawrogi cymhlethdodau a heriau cyfrifoldebau’r Gwasanaeth e.e. drwy gyfarfod â staff rheng flaen i drafod gwaith achos yn gyffredinol. Cyflwynodd yr Aelodau adroddiadau ar yr Ymweliadau Laming a gynhaliwyd ym mis Chwefror, Mawrth ac Ebrill o dan y fframwaith llywodraethiant cryfach. Roedd yr ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar:
  - **Cynhadledd Grŵp Teulu (14/02/19)** – amlygodd yr Ymweliad agweddau o waith y Tîm Teuluoedd Gwydn, gan ganolbwyntio ar wasanaethau rhiantu a chynadleddau grŵp teulu. Seilir y cyrsiau rhiantu ar y rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol (Prifysgol Bangor)
  - **Clywed llais plant a phobl ifanc (22/03/19)** – yn ystod Ymweliad mis Mawrth trafodwyd y prosiect Lleisiau o Ofal fydd yn cael ei redeg yn lleol yn ystod y 12 mis nesaf. Amcan → cynorthwyo’r gwasanaeth i glywed llais plant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai sy’n anodd eu cyrraedd.

- ❖ **Cyfarfod Gofalwyr Maeth (12/04/19)** – arwyddion cynnar bod Strategaeth Maethu'r Gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol wrth gefnogi gofalwyr maeth.

- **Plant sy'n gadael gofal yr Awdurdod** – ym mis Mawrth[4] ystyriodd y Panel gyfrifoldebau statudol y Cyngor mewn perthynas â phlant/pobl ifanc sy'n gadael gofal yr Awdurdod, gan ganolbwyntio'n benodol ar broses, niferoedd ac adnoddau. Mae nifer y plant mewn gofal wedi gostwng o 158 → 146 yn ystod ail hanner 2018; mae 12 o blant wedi gadael gofal yr Awdurdod. Nododd y Panel hefyd y bydd nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn nesaf (cyfanswm o 34). Bydd y bobl ifanc hyn yn cwrdd â meini prawf cymhwysedd y gwasanaeth ôl ofal.
- **Sesiynau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth** – wedi eu hymgorffori yn y rhaglen waith, cynhelir y sesiynau hyn ar gychwyn pob cyfarfod Panel. Mae pynciau a gafodd sylw yn ystod y misoedd diwethaf yn cynnwys – cynllun datblygu 3 blynedd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a phlant ag anableddau (yn cynnwys rôl y Tîm Gwasanaethau Arbenigol Plant).

**3. MESUR CANLYNIADAU AC EFFAITH Y PANEL**

**3.1 Cyd-destun**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae cofnodi ac asesu effaith Sgriwtini yn her gan nad yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob tro yn rhai o sylwedd ac yn aml iawn nid oes modd eu mesur mewn ffordd systematig. Yn ogystal â hyn, nid yw'n hawdd mesur effeithiolrwydd gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, mae taith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn enghraifft o sgriwtini yn ychwanegu gwerth ac yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu cynigion.

**3.2 Panel Gwella Gwasanaethau Plant**

Mae craffu ar daith wella'r gwasanaethau plant wedi aeddfedu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i gyfraniad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Ym mis Ebrill[5], cynhaliodd aelodau hunan-arfarniad o'i effaith gan adolygu 4 agwedd o'i waith:

- Beth weithiodd yn dda
- Nodi'r effaith y mae'r Panel wedi'i gael
- Meysydd i'w gwella
- Anghenion datblygu Aelodau

**3.3** Adroddir yn llawn ar ganlyniadau'r hunan asesiad yn adroddiad cynnydd nesaf y Panel ym mis Medi 2019.

**4. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EU HYSTYRIED**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i gasgliad ynglŷn â chadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

[4] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, 2019
[5] Cyfarfod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2019

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Amherthnasol |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**Cyng. Richard Griffiths**
**Cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant / Pencampwr Plant Mewn Gofal**
**Dyddiad: 07/05/2019**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **3 Mehefin, 2019**<br>**13 Mehefin, 2019** |
| **Pwnc:** | **Aelodaeth o'r Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adolygu aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Aled Morris Jones**<br>**Cyng. Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Amherthnasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r **ddau Bwyllgor Sgriwtini** enwebu 1 Aelod ychwanegol i eistedd ar y Panel Sgriwtini Cyllid. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| Amherthnasol. |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

   Bydd yr aelodau'n ymwybodol i'r Panel Sgriwtini Cyllid gael ei sefydlu ar ôl yr etholiad llywodraeth leol diwethaf[1] fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gyda'r amcanion canlynol:
   - Datblygu model o weithio ar faterion cyllid gan ganolbwyntio ar grŵp llai i alluogi Aelodau i chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd, annog presenoldeb da a gwaith tîm
   - Fforwm i drafod gwybodaeth ynglŷn â risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i gyfrannu at flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
   - Rhyddhau lle ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol er mwyn sicrhau bod materion trawsnewid a strategol yn cael eu craffu
   - Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau a chanddynt yr arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

2. **Aelodaeth Gyfredol**

   Mae aelodaeth gyfredol y panel yn cynnwys 2 Aelod o bob un o'r pwyllgorau sgriwtini, fel a ganlyn:

   i. **Yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**
   - Cynghorydd Aled Morris Jones
   - Cynghorydd Dylan Rees

   ii. **Yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
   - Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel)
   - Cynghorydd Alun Roberts

3. **Y cynnig i gynyddu aelodaeth y Panel**


   3.1 Ers yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno trefn mwy trylwyr o atebolrwydd sy'n cael ei harwain gan aelodau, trwy strwythur sgriwtini diwygiedig. Fel rhan o'r strwythur hwn, mae'r Aelodau'n parhau i fuddsoddi mewn a chyfrannu'n frwd at sgriwtini trwy waith ein 3 phanel sefydlog[2]. Nid yw'r Panel Sgriwtini Cyllid yn eithriad i hyn.

   3.2 **Hunanwerthuso ac adolygu cynnydd**

   Rydym wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â CIPFA Cymru i ddatblygu ein model sgriwtini ariannol gyda'r amcanion canlynol mewn golwg:

[1] Etholiadau Llywodraeth Leol, Mai 2017

[2] Y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion, Panel Sgriwtini Cyllid




Rydym wedi derbyn adborth gan CIPFA ar ein taith ddatblygu ar ddwy garreg filltir allweddol – ym mis Ebrill, 2018[3] ac yn ail fel rhan o'r ymarfer oedi ac adolygu gan y Panel ar ddiwedd 2018[4]. Mae'r Panel wrthi'n cynnal hunanwerthusiad diwedd blwyddyn ar hyn o bryd er mwyn adolygu, myfyrio a dysgu o'n taith hyd yma. Mae'n deg dweud fod y cwestiwn ynglŷn â'r nifer presennol o aelodau sy'n eistedd ar y Panel Sgriwtini Cyllid wedi cael ei drafod ar sawl achlysur gan y Panel dros y misoedd diwethaf. Argymhellwyd y dylid ychwanegu 2 aelod arall at aelodaeth bresennol y Panel – un o bob un o'r pwyllgorau sgriwtini. Byddai cynyddu aelodaeth y panel o 4 i 6 yn cynyddu capasiti ac yn galluogi trefn fwy cadarn o sgriwtini ariannol.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Amherthnasol |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**Y Cyng. Dafydd Roberts**
**Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid**
**Dyddiad: 17/05/19**

[3] Ym mis Ebrill, 2018 yn ystod paratoi Adroddiad Sgriwtini Blynyddol 2017/18
[4] Fel rhan o'r ymarfer oedi ac adolygu gan y Panel ar ddiwedd 2018

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018 → 2018/19 → 2019/20

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578

E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2017/18** | | | | |
| **31 Mai 2017**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 3.30yp | Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol | | | | |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol | | | | |
| **26 Mehefin 2017**<br>**[CH4: 2016/17]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17<br>Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad | Monitro perfformiad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Strategaeth Tai Gwag 2017/2022 | Datblygu Polisi | | | √ | |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodau | | √<br>(Aelodau) | | |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| **11 Gorffennaf 2017**<br>**[Cyfarfod arbennig]** | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangefni | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinellol Strategol – Band B (2019/24) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion | Enwebu Aelodau | | √ (Aelodau) | | |
| **4 Medi 2017** **[CH1: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1 ] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Cynllun y Cyngor 2017/2022 | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad | | | | |
| **2 Hydref 2017** **[Cyfarfod arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC) | Monitro perfformiad | | | | √ |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad | | | √ | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| **31 Hydref 2017** **[Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (Aelodau) | √ | √ |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (Aelodau) | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **13 Tachwedd 2017** **[CH2: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| | Strategaeth Rheoli Asedau - Tai Cyngor | Datblygu Polisi | | | √ | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |

Tudalen 66

Tudalen 67

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **14 Rhagfyr 2017 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 | Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Carchar a Llys Biwmaris | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 27/11/17 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers) | | | | √ |
| **31 Ionawr, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgîl y broses ymgysylltu) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Cludiant ysgol | Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad | | | | |
| | Rhaglen Wella Mân-ddaliadau | Rhybudd o gynnig o'r Cyngor Llawn | | | | √ |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth | | | | |
| **5 Chwefror 2018 [Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Cyllideb Ddrafft 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | | | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllid) | | | | | |
| **12 Mawrth 2018** **[CH3: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **23 Ebrill 2018** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a Henblas) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17] | | | | |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Trawsnewid | | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| | | | **2018/19** | | | |
| **4 Mehefin, 2018** **[CH4: 2017/18]** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Trafnidiaeth Ysgol – | Monitro perfformiad | | | √ | |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | diweddariad ar wireddu'r cynllun gweithredu (er gwybodaeth) | [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/01/18] | | | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **5 Gorffennaf, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro perfformiad | | | | √ |
| **13 Gorffennaf, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| **2 Awst, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Llangefni (Y Talwrn a'r Graig) | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 16/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Lewis Davies, Bryan Owen a Peter Rogers) | | | | √ |
| **6 Awst, 2018** **[Cyfarfod** | Rhaglen Moderneiddio | Galw Mewn penderfyniad | | | | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Ysgolion ardal Seiriol | gan y Pwyllgor Gwaith ar 18/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, John Arwel Roberts, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen a Peter Rogers) | | | | |
| **12 Medi, 2018 [CH1: 2017/18]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | **Eitem er Gwybodaeth**: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2017/18) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth | | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **20 Medi, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Gwaredu adeilad hen Ysgol Llaingoch, Caergybi | Galw Mewn penderfyniad gan y Deilydd Portffolio ar 30/08/18 (galw mewn gan y Cyng Shaun Redmond, Peter Rogers, Eric Wyn Jones, Bryan Owen ac Aled Morris Jones) | | | | √ |
| **8 Hydref, 2018 [Cyfarfod Arbennig]** | Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn – diweddariad (2018) | Trawsnewid | | | √ | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18 | Monitro perfformiad | | | √ | |
| **24 Hydref, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir | Trawsnewid | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| **6 Tachwedd, 2018 [Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | | √ | √ |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √ | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| **23 Tachwedd, 2018 [Ch2: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| **10 Rhagfyr, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol – Ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| **17 Ionawr, 2019 [Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 9:30yb | Archwiliad o'r Gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | **Er gwybodaeth:** Adroddiad Blynyddol 2017/18 – Gwasanaeth Llyfrgell | Monitro perfformiad – er gwybodaeth | | | | |
| **4 Chwefror, 2019 [Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √ | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **11 Mawrth, 2019 [CH3: 2018/19]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Polisi Cludiant Ysgol – polisi diwygiedig | | √ | √ (i'w gadarnhau) | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **8 Ebrill, 2019** | CYFARFOD WEDI'I OHIRIO | | | | | |



 Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **2019/20** | | | | |
| **17 Mai, 2019 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 9:30yb | Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2017/18 | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 29/04/19 (galw mewn gan y Cyng Peter Rogers, Shaun Redmond, Robert Llewelyn Jones, Ken Hughes a Bryan Owen) | | | | √ |
| **3 Mehefin, 2019 [Ch4: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1/2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Aelodaeth y Panel Sgriwtini Cyllid | | √ | √<br>(Aelodau) | √ | |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| **8 Gorffennaf, 2019 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1:00yp | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro perfformiad | | | | √ |
| | Adolygiad Paneli Sgriwtini ac Aelodaeth Byrddau Trawsnewid | Mesur effaith | √ | √<br>(Aelodau) | √ | |
| | **Eitem er gwybodaeth**: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2018/19) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth | | | | |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **11 Medi, 2019 [Ch1: 2019/20]** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2019/20 | Monitro perfformiad | | | | |
| Ystafell Bwyllgor 1/2yp | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Polisi Gosod Tai – cysylltiad lleol | Datblygu polisi | | √ | √ | √ |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **Cyfarfod Arbennig** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | √ |
| **23 Hydref, 2019 [Cyllideb]** | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | | √ | √ |
| Ystafell Bwyllgor 1/2yp | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **4 Tachwedd 2019** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2019/20 | Monitro perfformiad | | | | |
| **[Ch2: 2019/20]** | | | | | | |
| Ystafell Bwyllgor 1/2yp | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **Cyfarfod Arbennig** | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **(Rhagfyr)** | Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | | | | | |
| | | | | | | |
| **3 Chwefror 2020 [Cyllideb]** | Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2020/21 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √ | √ | √ |
| | | | | | | |
| Ystafell Bwyllgor 1/2yp | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol/ aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **9 Mawrth 2020 [Ch3: 2019/20]** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2019/20 | Monitro perfformiad | | | | |
| Ystafell Bwyllgor 1/2yp | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol/ aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **6 Ebrill 2020** | | | | | | |
| Ystafell Bwyllgor 1/2yp | | | | | | |
| | | | | | | |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithol/ aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| | | | | | | |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Eitemau Posibl ar gyfer y Blaen Raglen Waith (dyddiadau i'w cadarnhau)** | | | | | |
| I'w gadarnhau | Rheoli Ynni | Monitro perfformiad (Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/10/17) | | | | |
| I'w gadarnhau | Tlodi Tanwydd – cynlluniau i gefnogi cartrefi | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 13/11/17] | | | | |
| I'w gadarnhau | Effeithiau Diwygio Lles | Monitro perfformiad | | | | |
| I'w gadarnhau | Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Datblygu polisi [Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Scrutiny, 18/06/18] | | | | |
| I'w gadarnhau | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion | Trawsnewid | | √ | √ | √ |
| I'w gadarnhau (Ionawr, 2020) | **Eitem er gwybodaeth** – Adroddiad Blynyddol 2018/19: Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Monitro perfformiad – er gwybodaeth | | | | |